



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Rhif: WG44971

Llywodraeth Cymru
Ymgynghoriad - crynodeb o'r ymatebion

Strategaeth Rheoli Tybaco i Gymru a'r Cynllun Cyflawni

Gorffennaf 2022

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.

This document is also available in English.

Trosolwg

Cynhaliodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad rhwng 8 Tachwedd 2021 a 31 Mawrth 2022 i gasglu barn ar y strategaeth ddrafft ar reoli tybaco yng Nghymru "Cymru ddi-fwg" a'r cynllun cyflawni 'Tuag at Gymru Ddi-fwg 2022-2024". Penodwyd *Ymchwil OB3* gan Lywodraeth Cymru i baratoi'r adrodd hwn sy'n crynhoi'r ymatebion a ddaeth i law fel rhan o'r ymgynghoriad hwn.

Camau i'w Cymryd

Mae'r ddogfen hon er gwybodaeth yn unig.

Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig

Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille ac mewn ieithoedd eraill.

Manylion cyswllt

I gael rhagor o wybodaeth:

Y Gangen Ymddygiadau Risg (Tybaco, Alcohol a Gamblo).

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

E-bost: PolisiTybaco@llyw.cymru

Copïau ychwanegol

Cyhoeddir y crynodeb hwn o'r ymatebion a chopïau o'r holl ddogfennau ymgynghori ar ffurf electronig yn unig a gellir eu gweld ar wefan Llywodraeth Cymru.

Dolen i'r dogfennau ymgynghori: <https://llyw.cymru/strategaeth-rheoli-dybaco-cymru-a-cynllun-cyflawni>

Cynnwys

Geirfa	4
1. Cyflwyniad	5
2. Uchelgais i ddod yn Gymru ddi-fwg erbyn 2030	10
3. Themâu'r strategaeth.....	15
4. Ffynonellau data	20
5. Cynlluniau cyflawni a meysydd gweithredu blaenoriaeth.....	27
6. Camau allweddol a'r rhai nad ydynt wedi'u cynnwys yn y strategaeth ddrafft	37
7. Cyfatebiaeth â pholisïau	43
8. Effeithiau ar y Gymraeg.....	46
9. Materion eraill a godwyd.....	51
Atodiad 1: Rhestr o'r sefydliadau a ymatebodd i'r ymgynghoriad.....	55

Rhestr o'r tablau

Tabl 1.1 Proffil o'r ymatebwyr i'r ymgynghoriad.....	6
Tabl 2.1 A ydych yn cytuno â'n uchelgais i gyflawni Cymru ddi-fwg erbyn 2030?	10
Tabl 3.1 A ydych yn cytuno mai dyma'r themâu cywir i'r strategaeth ganolbwyntio arnynt?	15
Tabl 4.1 A ydych yn teimlo bod y dull gweithredu a nodir ar gyfer monitro cyfraddau smygu yng Nghymru yn gywir?	20
Tabl 4.2 Ffynonellau data ychwanegol a awgrymir i fonitro llwyddiant y Strategaeth Rheoli Tybaco i Gymru.....	25
Tabl 5.1 A ydych yn cytuno y dylem drefnu ein camau gweithredu yn gynlluniau cyflawni dwy flynedd?.....	27
Tabl 5.2 A ydych yn cytuno mai dyma'r meysydd gweithredu blaenoriaeth cywir i ganolbwyntio arnynt yng nghynllun cyflawni 2022-2024?.....	30
Tabl 6.1 Ydych chi'n teimlo mai'r camau gweithredu a ddatblygwyd o fewn pob maes gweithredu blaenoriaeth yw'r rhai cywir?	37
Tabl 7.1 A yw'r strategaeth a'r cynllun cyflawni yn cyd-fynd â meysydd polisi ac ymarfer perthnasol eraill?.....	43

Geirfa

Acronym	Disgrifiad
CCNCau	Cyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad
COVID-19	Clefyd y coronafeirws 2019
DPA	Dangosyddion Perfformiad Allweddol
e-sigarét	Sigarét electronig
FCTC WHO	Confensiwn Fframwaith Sefydliad Iechyd y Byd ar Reoli Tybaco
NEMS	Cwmni ymchwil i'r farchnad
NICE	Y Sefydliad Cenedlaethol Dros Ragoriaeth Mewn Iechyd a Gofal.
Snus	Cynnyrch tybaco di-fwg a gymerir drwy'r geg
UE	Undeb Ewropeaidd
Y GIG	Y Gwasanaeth Iechyd Gwladol

1. Cyflwyniad

- 1.1 Lansiodd Gweinidogion Cymru ymarfer ymgynghori ym mis Tachwedd 2021 i gasglu barn ar strategaeth rheoli tybaco hirdymor Llywodraeth Cymru, sef 'Cymru ddi-fwg' a'i chynllun cyflawni manwl 'Tuag at Cymru ddi-fwg: cynllun cyflawni ar reoli tybaco 2022 - 2024'.
- 1.2 Penodwyd Ymchwil OB3 gan Lywodraeth Cymru i baratoi adroddiad sy'n cyfuno'r ymatebion a dderbyniwyd fel rhan o'r ymarfer ymgynghori hwn. Cynhaliwyd yr ymgynghoriad rhwng 8 Tachwedd 2021 a 31 Mawrth 2022 ac mae'r adroddiad hwn yn nodi canfyddiadau'r dadansoddiad, gan gynnwys negeseuon a themâu allweddol a ddaeth i'r amlwg yn yr ymatebion i'r ymgynghoriad.
- 1.3 Mae rhagor o wybodaeth am y strategaeth a'r ymarfer ymgynghori ar gael [yma](#).

Ynglŷn â'r ymgynghoriad

- 1.4 Roedd yr ymgynghoriad yn gofyn am farn pobl ar strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer cyflawni Cymru ddi-fwg erbyn 2030 a'r cynllun cyflawni manwl hyd at 2024. Roedd y strategaeth yn amlinellu uchelgais i gyflawni cyfradd cyffredinrwydd smygu ymysg oedolion o 5% neu lai erbyn 2030. Cynigiodd gamau gweithredu ar draws tair thema allweddol, sef lleihau anghydraddoldebau, cenedlaethau'r dyfodol, a dull system gyfan ar gyfer Cymru ddi-fwg. Mae'r cynllun cyflawni dwy flynedd yn nodi pum maes gweithredu blaenoriaeth, sef: amgylcheddau di-fwg; gwelliant parhaus a chefnogi arloesi; grwpiau blaenoriaeth; mynd i'r afael â thybaco anghyfreithlon a'r fframwaith cyfreithiol ar gyfer rheoli tybaco; a gweithio ar draws y DU.

Ynglŷn â'r ymatebion i'r ymgynghoriad

- 1.5 Nod yr ymarfer ymgynghori oedd casglu barn rhanddeiliaid ar gyfanswm o 12 o gwestiynau ansoddol. Roedd saith o'r cwestiynau hyn hefyd yn cynnwys cwestiwn caeedig yn gofyn i'r cyfranwyr a oeddent yn cytuno'n llwyr, yn cytuno'n rhannol neu'n anghytuno ag elfennau o'r strategaeth.
- 1.6 Mae'r dadansoddiad yn seiliedig ar farn 246 o ymatebwyr. O blith y rhain:

- cyflwynwyd 212 drwy'r ffurflen ar-lein
- cyflwynwyd 29 drwy'r ffurflen ymateb ysgrifenedig, a
- chyflwynwyd pump mewn fformat arall h.y., ymateb cyffredinol ysgrifenedig nad oedd yn dilyn fformat cwestiynau'r ymgynghoriad mewn unrhyw ffordd.

1.7 Mae proffil y rhai a ymatebodd i'r ymarfer ymgynghori i'w weld yn Nhabl 1.1, yn seiliedig ar gategoreiddio gan Ymchwil OB3. Mae'n dangos bod mwyafrif yr ymatebion wedi'u cyflwyno gan unigolion ac mai cyrff proffesiynol a sefydliadau sy'n gysylltiedig ag iechyd oedd y garfan fwyaf o sefydliadau.

1.8 Cafwyd tri ymateb gan y diwydiant tybaco, tri ymateb gan y diwydiant e-sigaréts, ac un ymateb gan grŵp lobïo ar dybaco. Yn unol ag Erthygl 5.3 o Gonfensiwn Fframwaith Sefydliad Iechyd y Byd (WHO) ar Reoli Tybaco, mae'r sylwadau hyn wedi'u dogfennu fel rhan o'r dadansoddiad hwn. Fodd bynnag, ni fyddant yn cael eu hystyried wrth i'r strategaeth a'r cynllun cyflawni gael eu datblygu ymhellach.

Tabl 1.1 Proffil o'r ymatebwyr i'r ymgynghoriad

Math o sefydliad	Nifer	Cyfran
Unigolion	199	80.9%
Cyrff proffesiynol, grwpiau â diddordeb a sefydliadau aelodaeth	14	5.7%
Bwrdd Iechyd neu sefydliad arall sy'n gysylltiedig ag iechyd	14	5.7%
Y diwydiant tybaco ac e-sigaréts/grwpiau lobïo	7	2.8%
Y trydydd sector	6	2.4%
Awdurdodau lleol	3	1.2%
Y sector preifat	1	0.4%
Adrannau Llywodraeth Cymru a CCNCau	1	0.4%
Addysg Uwch	1	0.4%
Cyfanswm	246	100.0%

- 1.9 Cafodd y sefydliadau a ymatebodd eu codio yn erbyn set o grwpiau buddiannau blaenoriaeth penodol. O blith y rhai a ymatebodd, roedd pump yn cynrychioli buddiannau plant a phobl ifanc ac roedd un sefydliad yn cynrychioli buddiannau menywod beichiog yn benodol.
- 1.10 Roedd hyd yr ymatebion a gyflwynwyd yn amrywio. Dangosodd dadansoddiad o'r 34 o ymatebion ysgrifenedig¹ eu bod yn amrywio o 3 i 37 tudalen o hyd, sef cyfartaledd o ychydig dros 10 tudalen. Roedd y nifer o gwestiynau'r ymgynghoriad a atebwyd ym mhob ymateb ysgrifenedig hefyd yn amrywio. Er enghraifft, roedd y nifer o gwestiynau'r ymgynghoriad a atebwyd yn ysgrifenedig yn amrywio, gyda 10 o ymatebion yn ateb pob un o'r 12 cwestiwn.

Dull dadansoddi

- 1.11 Roedd ein dull dadansoddi yn cynnwys:
- mynychu cyfarfod cychwynnol gyda'r cleient a chael mynediad at yr holl ymatebion i'r ymgynghoriad drwy borth diogel
 - paratoi templed dadansoddi pwrpasol ar gyfer yr ymgynghoriad yn Excel a mewngludo cynnwys yr holl ymatebion i'r templed hwn
 - cynnal adolygiad cychwynnol o sampl o ymatebion (30%) i bob un o'r 12 cwestiwn a datblygu fframwaith codio. Dewiswyd y sampl o ymatebion i bob cwestiwn ar hap i sicrhau bod set wahanol o ymatebion yn cael eu hystyried ar gyfer pob un. Roedd y fframwaith codio yn caniatáu nodi codau cyffredin ar gyfer labelu ymadroddion a materion allweddol ac fe'i defnyddiwyd fel fframwaith cyffredinol ar gyfer dadansoddiad thematig
 - defnyddio'r fframwaith codio i gategoreiddio'r holl ymatebion i'r ymgynghoriad a ddaeth i law, gan sicrhau bod y dadansoddiad yn cael ei gynnal mewn modd cyson heb ragfarn. Ychwanegwyd

¹ Ni ellid cynnal dadansoddiad o'r fath ar gyfer yr ymatebion ar-lein gan na chafodd y rhain eu cyflwyno fel dogfennau.

themâu newydd a nodwyd yn ystod yr ymarfer hwn at y fframwaith codio

- dadansoddi'r ymateb i bob un o gwestiynau'r ymgynghoriad. Roedd hyn yn cynnwys meintioli'r niferoedd a oedd yn cytuno neu'n anghytuno â'r cwestiynau caeedig yn ogystal â'r niferoedd nad oeddent yn cynnig barn glir. Roedd hefyd yn cynnwys datblygu naratif i roi cipolwg ar yr ymatebion penagored a ddarparwyd, gan gynnwys trosolwg eang o faint o ymatebwyr a wnaeth bwyntiau penodol ac i ba grŵp o ymatebwyr y maent yn perthyn. Amlygwyd ymatebion cyffredin ar gyfer pob cwestiwn a gwahaniaeth barn rhwng gwahanol grwpiau o ymatebwyr.

1.12 Rhoddwyd yr un pwysoliad i bob ymateb o fewn y dadansoddiad hwn, ni waeth pa ddull ymateb a fabwysiadwyd neu'r graddau yr oedd ymateb yn cynrychioli barn unigolyn, sefydliad neu grŵp a chanddo aelodaeth ehangach. Mae'n werth nodi hefyd bod rhai ymatebion, megis sefydliadau aelodaeth, yn cynrychioli barn nifer fwy o sefydliadau neu aelodau ond nid yw'n bosibl nodi graddau'r amrywiaeth barn o fewn yr aelodaeth honno.

Strwythur yr adroddiad hwn

1.13 Mae'r adroddiad hwn yn cyfuno'r pwyntiau allweddol a wnaed gan y cyfranwyr. Mae wedi'i strwythuro i gyd-fynd â'r 12 cwestiwn craidd. Felly mae'r adroddiad wedi'i drefnu fel a ganlyn:

- pennod dau: ystyried yr ymatebion i Gwestiwn 1 ynghylch uchelgais gyffredinol y strategaeth
- pennod tri: dadansoddiad o'r ymatebion i Gwestiwn 2 am y themâu a bennir yn y strategaeth
- pennod pedwar: myfyrio ar yr ymatebion i Gwestiynau 3 a 4 ynghylch ffynonellau data
- pennod pump: ystyried yr ymatebion i Gwestiynau 5 a 6 ar gynlluniau cyflawni a meysydd gweithredu blaenoriaeth
- pennod chwech: amlinellu'r ymatebion i Gwestiynau 7 ac 8 am gamau allweddol a'r rhai nad ydynt wedi'u cynnwys yn y strategaeth

- pennod saith: ystyried yr ymatebion i Gwestiwn 9 ynghylch a yw'r strategaeth yn cyd-fynd â pholisïau ehangach
- pennod wyth: ystyried effeithiau'r strategaeth ar y Gymraeg (Cwestiynau 10 ac 11)
- pennod naw: dadansoddiad o unrhyw themâu neu faterion a godwyd a oedd y tu hwnt i gylch gorchwyl uniongyrchol cwestiynau'r ymgynghoriad (Cwestiwn 12).

2. Uchelgais i ddod yn Gymru ddi-fwg erbyn 2030

2.1 Mae'r bennod hon yn ystyried yr uchelgais yn y strategaeth rheoli tybaco i ddod yn Gymru ddi-fwg erbyn 2030 fel y nodir yng Nghwestiwn 1 yr ymgynghoriad.

Cwestiwn 1

Ein huchelgais yw cyflawni Cymru ddi-fwg erbyn 2030 (mae di-fwg yn golygu bod 5% neu lai o oedolion yng Nghymru yn smygu). Bydd ein holl gamau gweithredu dros yr 8 mlynedd nesaf yn gweithio tuag at gyflawni hyn.

A ydych yn cytuno â'n huchelgais i gyflawni Cymru ddi-fwg erbyn 2030?

Esboniwch pam mai ein huchelgais yw'r peth iawn neu sut y byddai angen i'n huchelgais newid os credwch fod angen dull gweithredu gwahanol.

2.2 Yn gyntaf, gofynnodd y cwestiwn a oedd yr ymatebwyr yn cytuno â'r uchelgais i Gymru ddod yn ddi-fwg erbyn 2030. Roedd yr ymateb fel a ganlyn:

Tabl 2.1 A ydych yn cytuno â'n huchelgais i gyflawni Cymru ddi-fwg erbyn 2030? [n=246]

	Nifer yr ymatebion	Canran (%)
Ydw	116	47%
Yn rhannol	26	11%
Nac ydw	94	38%
Dim ymateb	10	4%
Cyfanswm	246	100%

2.3 Rhoddwyd cyfle i'r ymatebwyr ymhelaethu ar eu hatebion ac egluro pam yr oeddent yn cytuno â'r uchelgais, neu sut yr oedd angen i'r uchelgais newid, os oeddent yn teimlo bod angen dull gweithredu gwahanol.

- 2.4 Daeth cyfanswm o 202 o ymatebion ysgrifenedig i law ar gyfer y cwestiwn hwn ac roedd eu hanner yn cytuno â'r uchelgais.
- 2.5 Roedd chwarter yr ymatebion yn cynnwys sylwadau cyffredinol a oedd yn dangos eu bod yn cytuno'n llwyr ag uchelgais y strategaeth ac yn teimlo, er bod yr uchelgais yn heriol, ei bod yn parhau i fod yn realistig ac yn gyraeddadwy:
- 'Efallai fod uchelgais 2030 yn her aruthrol ond mae'r wobr yn werth yr ymdrech'
- 'Rwy'n cytuno â'r uchelgais ac yn meddwl ei fod yn syniad gwych'
- 'Rwy'n meddwl bod yr amserlen yn realistig'
- 2.6 Mewn rhai achosion, er bod yr ymatebwyr yn cytuno â'r uchelgais, fe wnaethant hefyd amlinellu eu dymuniad iddi fod yn fwy uchelgeisiol – yn enwedig o ran yr amserlen:
- 'Dyw hi ddim yn ddigon uchelgeisiol, dylid ei chyflawni'n gynt...2028, mae angen cwtdgi'r amserlen!' [R60]
- 'Dylech wneud hyn yn gynt, mae 2030 yn rhy bell i ffwrdd!'
- 2.7 Cyfeiriodd chwarter yr ymatebion at y manteision iechyd y gellid eu cyflawni pe bai'r uchelgais yn cael ei gwireddu fel rheswm allweddol dros gefnogi'r dull gweithredu. Cyfeiriodd yr ymatebion at y ffaith y byddai'r uchelgais yn arwain at ostyngiad mewn marwolaethau sy'n gysylltiedig â smygu a gwelliant mewn canlyniadau iechyd. Trafododd sawl ymateb y canlyniadau iechyd gwell y gellid eu cyflawni i grwpiau blaenoriaeth penodol megis babanod, plant, pobl ifanc, neu famau beichiog. Yn yr un modd, teimlai ymatebwyr eraill y byddai'r uchelgais a amlinellwyd yn y strategaeth yn lleihau anghydraddoldebau iechyd yng Nghymru:
- 'Ledled Cymru, mae 17% o famau yn smygu drwy gydol eu bechiogrwydd, a gwelir y cyfraddau uchaf ymhlith pobl ifanc beichiog 16-19 oed... [dylai'r strategaeth a'r cynllun] helpu i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau economaidd-gymdeithasol mewn canlyniadau iechyd'

'Mae smygu yn achosi niwed aruthrol i'r smygwr yn ogystal â'r bobl o'i gwmpas. Mae'n faich enfawr ar y GIG ac mae'n cael effeithiau pellach ar ofal cymdeithasol ac os gellir ei leihau, gorau oll'

'Smygu yw'r prif achos marwolaeth y gellir ei atal yng Nghymru o hyd'

'Mae hwn yn ddull da o ymdrin ag iechyd y cyhoedd a gobeithio y bydd yn lleihau anghydraddoldebau iechyd'

- 2.8 Trafodwyd y ffocws ar blant a phobl ifanc mewn tuag un o bob deg o'r ymatebion ac roedd y rhain yn amlygu'r angen i addysgu plant a phobl ifanc am effeithiau negyddol smygu, a chyfyngu ar fynediad at gynhyrchion:

'Rydym yn credu bod gan blant a phobl ifanc yr hawl i fyw mewn cartrefi di-fwg'

'Mae gormod o bobl yn smygu o hyd, yn enwedig yr ifanc'

- 2.9 Mynegwyd barn wahanol am y defnydd o ddewisiadau amgen megis e-sigaréts. Mewn nifer fach o'r ymatebion cafwyd galwad i'r strategaeth gwmpasu lleihau a dileu'r defnydd o e-sigaréts neu gynhyrchion tebyg. Er enghraifft, nododd un ymateb:

'bydden ni'n ddi-fwg erbyn 2025, ond wedyn yn rhydd o e-sigaréts erbyn 2030'

- 2.10 Roedd eraill yn dymuno gweld y strategaeth yn annog smygwyr i wneud mwy o ddefnydd o gynhyrchion smygu mwy diogel.

'Rwy'n ... meddwl y dylai fod gwahaniaeth clir rhwng 'smygu' a 'defnyddio e-sigaréts' gan fod tystiolaeth yn dangos bod e-sigaréts yn llawer llai niweidiol na smygu'

- 2.11 Cafwyd nifer bach o sylwadau penodol eraill hefyd, gydag ychydig o ymatebion yn mynegi'r pwyntiau canlynol:

- bydd gwireddu'r uchelgais yn helpu i wella'r amgylchedd:

'bonion sigaréts/hidlwyr yw un o'r eitemau mwyaf cyffredin o lygredd plastig yn y cefnforoedd'

'Smygu yw... un o brif achosion sbwriel'

- dylid cefnogi'r uchelgais gan y bydd yn lleihau effaith troseddau cyfundrefnol
- mae addysgu pobl am beryglon smygu yn hollbwysig
- bydd angen cymorth ar smygwyr presennol yn eu hymdrechion i roi'r gorau i smygu.

2.12 Roedd hanner yr holl ymatebion a gafwyd yn anghytuno â'r uchelgais a nodir yn y strategaeth. Teimlai tua phedwar o bob deg ymatebydd fod yr uchelgais yn dileu rhyddid unigolion i ddewis a bod y llywodraeth yn rheoli hawliau pobl yn ormodol i wneud penderfyniad drostynt eu hunain:

'Mae angen i chi roi'r gorau i geisio rheoli sut mae pobl yn byw eu bywydau'

'Mae angen i Gymru aros yn wlad agored, rydd lle mae gan bob unigolyn ei hawl ei hun i ddewis yr hyn y mae am ei wneud'

'rhyddid i ddewis yw'r enw arno'

2.13 Nid oedd ymatebion eraill (llai nag un o bob deg) yn cytuno â'r uchelgais am resymau eraill. Un mater a godwyd oedd y dylid canolbwyntio ar broblemau eraill fel gordewdra, y defnydd o alcohol a/neu gyffuriau:

'mae gordewdra, camddefnyddio cyffuriau ac alcohol yn rhoi mwy o bwysau o lawer ar y gwasanaeth iechyd. Dylech ganolbwyntio ar y rhieni a rhoi'r gorau i gosbi smygwyr sydd eisoes yn cael eu trethu'n drwm ar y cynhyrchion maen nhw'n eu defnyddio'

'oherwydd o gymharu ag alcohol a chyffuriau, smygu sigarêts yw'r arfer lleiaf niweidiol. Dylai Cymru fod yn canolbwyntio ar adsefydlu'r rhai sy'n defnyddio cyffuriau ac yn camddefnyddio alcohol...'

2.14 Darparodd eraill atebion ysgrifenedig nad oeddent yn ateb y cwestiwn yn uniongyrchol, ond roedd y sylwadau'n ei gwneud yn glir eu bod yn anghytuno â'r uchelgais mewn egwyddor:

'mae'n hurt'

'meindiwch eich busnes'

2.15 Cododd ychydig yn llai nag un o bob 10 o'r atebion i'r cwestiwn hwn bryderon bod yr uchelgais a amlinellwyd yn y strategaeth yn afrealistig fel y

saif, ac mewn rhai achosion, cynigiwyd awgrymiadau ynghylch pam yr oeddent yn credu hyn:

'A bod yn realistig, dw i ddim yn credu bod y nod o leihau nifer y bobl sy'n smygu i 5% erbyn 2030 yn gyraeddadwy. Mae pennu dyddiad o 2035 yn darged ychydig yn fwy realistig yn fy marn i'

'Rwy'n cytuno â'r uchelgais, ond heb gyllido'r Byrddau Iechyd yn briodol, a datganiad sefyllfa clir ar e-sigaréts, bydd yn anodd cyflawni'r uchelgais hon.'

3. Themâu'r strategaeth

3.1 Mae'r adran hon yn ymdrin â'r ymatebion a gafwyd i Gwestiwn 2 yr ymgynghoriad:

Cwestiwn 2

Mae'r strategaeth yn pennu'r tair thema ar gyfer ein gwaith wrth inni fwrw ymlaen â'r newidiadau mewn smygu yng Nghymru:

- Thema 1: Lleihau Anghydraddoldebau
- Thema 2: Cenedlaethau'r Dyfodol
- Thema 3: Dull System Gyfan ar gyfer Cymru Ddi-fwg

A ydych yn cytuno mai dyma'r themâu cywir i'r strategaeth ganolbwyntio arnynt?

Esboniwch pam rydych chi'n ystyried bod y themâu'n gywir neu os ydych chi'n meddwl bod angen dull gweithredu gwahanol.

3.2 Gofynnwyd i'r ymatebwyr nodi a oeddent yn cytuno â'r themâu a awgrymwyd ac ymatebwyd fel a ganlyn:

Tabl 3.1 A ydych yn cytuno mai dyma'r themâu cywir i'r strategaeth ganolbwyntio arnynt? [n=246]

	Nifer yr ymatebion	Canran (%)
Ydw	106	43%
Yn rhannol	31	13%
Nac ydw	91	37%
Dim ymateb	18	7%
Cyfanswm	246	100%

3.3 Yna gofynnwyd i'r ymatebwyr esbonio pam yr oeddent yn ystyried mai'r themâu hyn oedd y rhai cywir neu a oeddent yn meddwl bod angen dull gweithredu gwahanol. Cafwyd 148 o ymatebion manwl i'r cwestiwn hwn, ac

mae tua thraean o'r rhain yn darparu sylwadau sy'n dangos cefnogaeth i'r tair thema a gynigir, gan gredu eu bod yn rhyng-gysylltiedig ac yn ategu ei gilydd:

'Rwy'n credu mai dyma'r themâu cywir'

'Mae'n ymddangos yn strategaeth gytbwys'

'Mae'r themâu hyn yn ymddangos yn synhwyrol o ran mynd i'r afael â'r mater hwn'

- 3.4 Mewn tua thraean o'r ymatebion gwneir sylwadau penodol neu maent yn codi materion yn ymwneud â **Thema 1: Lleihau anghydraddoldebau**. Mae nifer o'r ymatebion yn amlygu pwysigrwydd y thema benodol hon ac yn rhoi rhesymau pam mai dyma'r thema gywir ar gyfer y strategaeth:

'mae'r pandemig COVID-19 wedi cynyddu'r effaith negyddol ar ganlyniadau iechyd ar gyfer y cymunedau â'r amddifadedd mwyaf yng Nghymru'

'mae tystiolaeth dda o gysylltiad rhwng statws economaidd-gymdeithasol a nifer yr achosion o smygu'

[rhaid cael] cydnabyddiaeth o'r rôl y mae anghydraddoldebau a gwahaniaethau yn ei chwarae o ran ysgogi'r defnydd o dybaco'

- 3.5 Mae'r ymatebion yn tynnu sylw at bwysigrwydd sicrhau dull gweithredu cyfannol sy'n lleihau anghydraddoldebau ar draws yr holl boblogaethau a chymunedau, ynghyd ag angen i flaenoriaethu ymyriadau ar lefel y boblogaeth mewn ardaloedd lle ceir cyfraddau smygu uchel, gyda rhai awgrymiadau ynghylch cysylltu unrhyw ddyraniadau cyllid â lefelau amddifadedd. Mae ymatebion eraill yn nodi'r angen i gysylltu â strategaethau ehangach y llywodraeth ar iechyd y cyhoedd a thlodi plant i ymdrin â'r rhesymau sylfaenol pam mae cyfran uwch o bobl o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol is yn dechrau smygu yn y lle cyntaf. Mae galwadau hefyd am wasanaethau rhoi'r gorau i smygu cryfach a gwell o fewn y ffrwd waith hon sy'n fwy hygyrch i'r rhai sydd eu hangen, yn enwedig mewn cymunedau â mwy o amddifadedd a/neu gyllid wedi'i neilltuo ar gyfer grwpiau blaenoriaeth.

3.6 Mae tua thraean yr ymatebion a ddaeth i law hefyd yn gwneud sylwadau penodol neu'n codi materion yn ymwneud â **Thema 2: Cenedlaethau'r Dyfodol**. Yn gyffredinol mae'r ymatebion hyn yn cytuno â'r thema ac yn nodi eu bod yn falch o'i gweld yn cael ei chynnwys yn y strategaeth. Mae'r ymatebwyr yn aml yn pwysleisio pwysigrwydd ymyrraeth gynnar a mesurau atal er mwyn amddiffyn cenedlaethau'r dyfodol:

'Cenedlaethau'r dyfodol yw'r pwysicaf – gofalu am iechyd cenedlaethau'r dyfodol i helpu'r GIG'

'Rhaid sicrhau nad yw'r plant a'r bobl ifanc yn meddwl bod smygu'n cŵl'

'Mae'r thema hon i'w chrosawu: mae atal pobl ifanc rhag dechrau smygu yn y lle cyntaf yn fwy effeithiol nag ymyrraeth a thriniaeth ddiweddarach'

3.7 Mae'r ymatebion i Thema 2 yn ystyried pwysigrwydd cyfathrebu'n effeithiol â phlant a phobl ifanc fel eu bod yn fwy gwybodus am effaith smygu, gan awgrymu defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol fel ffordd o dargedu'r grŵp oedran hwn gyda negeseuon priodol.

3.8 Mae rhai o'r ymatebion hefyd yn pwysleisio pwysigrwydd gweithio'n fwy cyfannol gyda phlant a phobl ifanc, ac mae angen mwy o ystyriaeth a ffocws ar y 'pyrth' posibl i smygu a chaethiwed i nicotin drwy gynhyrchion nad ydynt yn cynnwys nicotin, fel e-sigaréts. Ceir galwadau hefyd am drefniadau gorfodi llymach ar werthu tybaco i blant. Mae rhai o'r ymatebion hefyd yn nodi'r cysylltiadau posibl rhwng y defnydd o dybaco a chanabis ac yn galw am ymyriadau a chymorth wedi'u targedu i helpu pobl ifanc i roi'r gorau i ddefnyddio canabis ochr yn ochr ag unrhyw ymgyrch gwrthsmygu.

3.9 Amlygwyd cyfraddau smygu uchel ymhlith pobl ifanc 16-24 oed a menywod ifanc 24 oed ac iau sy'n smygu yn ystod beichiogrwydd fel mater y mae angen mynd i'r afael ag ef o dan y thema hon. Mae cynyddu'r gyfran o feichiogrwydd di-fwg yn flaenoriaeth amlwg i sawl ymatebydd o ran y thema hon, gan gynnwys yr angen i ystyried y cyfnod cyn cenhedlu yn ogystal â mynd i'r afael â chanlyniadau andwyol uniongyrchol smygu ar y plentyn yn y groth a'r baban.

3.10 Yn olaf, mae materion yn ymwneud â'r defnydd o e-sigaréts ymhlith pobl ifanc yn cael eu codi o dan y thema hon, gyda sawl ymateb yn croesawu'r

ymrwymiad i annog pobl i beidio â defnyddio e-sigaréts, tra bod eraill yn galw am gymorth wedi'i dargedu ar sail tystiolaeth i helpu pobl ifanc i roi'r gorau i ddefnyddio e-sigaréts a/neu ganabis.

3.11 Mewn tua thraean o'r ymatebion gwneir sylwadau penodol neu maent yn codi materion yn ymwneud â **Thema 3: Dull System Gyfan**:

- cytunir bod dull system gyfan yn hanfodol – a bod angen i'r holl bartneriaid a rhanddeiliaid, gan gynnwys y cyhoedd, fynd i'r un cyfeiriad a chydweithio'n effeithiol er mwyn cyflawni uchelgais y strategaeth
- mae angen i'r 'dull system gyfan' fod yn draws-sector a thraws-lywodraethol gyda'r ystod ehangaf o bartneriaid yn cymryd rhan, y tu hwnt i'r sefydliadau statudol a sefydliadau'r trydydd sector arferol. Mae galwadau iddo gael ei gydlynu ar lefel leol, lefel ranbarthol a lefel genedlaethol, o bosibl yn cael ei arwain gan bartneriaethau sefydledig presennol fel y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus a'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol.
- mae angen i'r 'dull system gyfan' fod yn gynhwysfawr a chwmpasu deddfwriaeth, addysg, cyfathrebu, gwasanaethau rhoi'r gorau iddi, a rheoleiddio'r diwydiant tybaco
- mae angen gwneud rhai gwelliannau i'r ffordd y mae'r gwasanaeth Helpa Fi i Stopio yn cael ei ddarparu er mwyn sicrhau ei fod yn ddi-dor ac integredig
- mae cyfle i ddysgu gwersi o'r broses o gyflwyno'r brechlyn COVID-19 ac i ganolbwyntio ar bontio'n ddi-dor i ddefnyddwyr gwasanaethau o wasanaethau a arweinir gan ysbytai i wasanaethau a arweinir gan y gymuned
- mae angen ystyried cynaliadwyedd y dull ar ôl 2030 er mwyn cynnal unrhyw enillion a wnaed.

3.12 Mae ambell ymateb i Gwestiwn 2 (llai na phump) yn amlygu'r angen i ganolbwyntio ar addysg a newid ymddygiad a dim ond dau ymateb sy'n awgrymu dull gweithredu gwahanol (gan awgrymu dull cam-wrth-gam yn

hytrach na dull system gyfan). Mae nifer tebyg o ymatebion hefyd yn cyfeirio at Fodel Ottawa ar gyfer Rhoi'r Gorau i Smygu² fel enghraifft dda o ddull effeithiol a ddaeth â gofal sylfaenol, gofal eilaidd a gofal trydyddol ynghyd, tra bod y prosiect CURE ym Manceinion Fwyaf hefyd yn cael ei amlygu fel cynllun llwyddiannus yn seiliedig ar y dull hwn.

- 3.13 Cafwyd un awgrym ynghylch cynnwys thema annibynnol, sef 'Trin Dibyniaeth ar Dybaco', i ganolbwyntio ar y bobl sydd wedi bod yn smygu ers blynyddoedd lawer. Mae un ymateb yn awgrymu mai'r thema 'Dull system gyfan' ddylai fod yn thema gyntaf o'r tair, gan ei bod yn hollgynhwysol. Teimlai ymateb arall fod geiriad y thema hon yn glir i'r rhai sy'n gweithio yn y sector, ond efallai y byddai geiriad haws ei ddeall ar gyfer y thema yn fwy addas i'r cyhoedd.
- 3.14 Nid oedd ychydig yn llai na hanner yr ymatebion a ddaeth i law wedi ateb y cwestiwn yn uniongyrchol neu roeddent yn ailadrodd sylwadau blaenorol ynghylch y rhyddid i ddewis.

² <https://ottawamodel.ottawaheart.ca/>

4. Ffynonellau data

- 4.1 Mae'r bennod hon yn ystyried yr ymatebion a gafwyd i Gwestiynau 3 a 4 mewn perthynas â defnyddio ffynonellau data i fonitro cyfraddau smygu yng Nghymru.

Cwestiwn 3

Er inni nodi mai ein huchelgais yw cyflawni Cymru ddi-fwg erbyn 2030, nid ydym wedi pennu targedau cerrig milltir yn ymwneud â chyffredinrwydd smygu yn ein strategaeth nac ychwaith wedi gosod cyfradd cyffredinrwydd smygu y byddwn yn anelu at ei chyflawni erbyn diwedd y cynllun cyflawni cyntaf. Fodd bynnag, ein nod yw lleihau cyffredinrwydd smygu yn sylweddol dros yr 8 mlynedd nesaf. Byddwn yn defnyddio'r ffynonellau data canlynol i fonitro cyfraddau smygu yng Nghymru:

- Arolwg Cenedlaethol Cymru sy'n darparu data'n ymwneud â smygu yng Nghymru ynghyd â chyfradd cyffredinrwydd smygu. Arolwg lechyd a Lles Myfyrwyr yng Nghymru mewn perthynas â smygu a'r defnydd o e-sigaréts ymhlith pobl ifanc 11-16 oed.
- Ystadegau mamolaeth a genedigaeth ar gyfer cyfraddau smygu ymhlith mamau.

Ydych chi'n teimlo mai dyma'r dull gweithredu cywir?

Esboniwch pam mai dyma'r dull cywir neu os credwch fod angen dull gweithredu gwahanol.

- 4.2 Mae cwestiwn 3 yn gofyn ai'r bwriad i ddefnyddio Arolwg Cenedlaethol Cymru i ddarparu cyfradd cyffredinrwydd smygu; arolwg lechyd a Lles Myfyrwyr yng Nghymru i ganfod ymddygiad smygu a'r defnydd o e-sigaréts ymhlith pobl ifanc 11-16 oed; ac ystadegau mamolaeth a genedigaeth ar gyfer cyfraddau smygu ymhlith mamau yw'r dull gweithredu cywir. Nododd yr ymatebwyr eu barn fel a ganlyn:

Tabl 4.1 A ydych yn teimlo bod y dull gweithredu a nodir ar gyfer monitro cyfraddau smygu yng Nghymru yn gywir? [n=246]

	Nifer yr ymatebion	Canran (%)
Ydw	91	37%
Yn rhannol	54	22%
Nac ydw	82	33%
Dim ymateb	19	8%
Cyfanswm	246	100%

4.3 Daeth 128 o sylwadau ysgrifenedig i law ar gyfer cwestiwn 3, yn ychwanegol at yr uchod. O blith y rhain, roedd tuag un rhan o bump yn cynnwys sylwadau cefnogol am y dull a amlinellwyd a chytunwyd ei fod yn ffordd briodol o fwrw ymlaen:

'Mae'r rhain yn ffynonellau data cywir a chyfredol'

'Rwy'n meddwl bod hyn yn ffordd synhwyrol ac ymarferol ymlaen'

'Mae'r rhain yn ffynonellau data mawr a chadarn a fydd gyda'i gilydd yn darparu tystiolaeth dda ar lefel y boblogaeth ynglŷn â chynnydd'

4.4 Roedd traean o'r ymatebion a ddaeth i law yn cynnig awgrymiadau penodol mewn perthynas â'r dull gweithredu.

4.5 Er bod llawer o'r sylwadau hyn yn cytuno â'r defnydd o Arolwg Cenedlaethol Cymru fel ffynhonnell ddata ddibynadwy, codwyd rhai pryderon penodol gan gynnwys y canlynol:

- maint annigonol y sampl
- ni all maint y sampl fod yn gynrychioliadol ar lefel leol
- roedd maint y sampl yn rhy fach i dargedu grwpiau blaenoriaeth yn effeithiol
- roedd y data yn dibynnu ar hunanadrodd ac felly mae'r gallu i ddarparu disgrifiad cywir o statws smygu yn gyfyngedig
- er bod y data'n rhoi syniad o gyffredinrwydd smygu ymhlith pobl sy'n byw ar aelwydydd, ni fydd yn darparu data ar gyfer y rhai heb

gyfeiriad sefydlog, y rhai mewn ysbytai iechyd meddwl, neu'r rhai mewn carchardai

- 4.6 Cafwyd galwadau hefyd i gryfhau'r data sy'n cael ei gasglu ar hyn o bryd drwy Arolwg Cenedlaethol Cymru ac i ychwanegu'r canlynol:
- smygu a'r defnydd o ganabis
 - ymdrechion i roi'r gorau iddi a'r dulliau a ddefnyddir i roi'r gorau iddi
 - cyffredinrwydd y defnydd o e-sigaréts a'r cymhelliant i'w defnyddio.
- 4.7 O ran arolwg lechyd a Lles Myfyrwyr Cymru, gwnaed nifer bach o sylwadau, a oedd yn bennaf yn croesawu'r defnydd o'r arolwg. Roedd cwpl o ymatebwyr yn awyddus i weld yr arolwg yn cael ei ddefnyddio i gasglu data ar ysgolion cynradd hefyd neu i ddefnyddio data o Ymddygiad Iechyd mewn Plant Oedran Ysgol ar gyfer Cymru.
- 4.8 Roedd y nifer bach o sylwadau a gafwyd mewn perthynas ag ystadegau mamolaeth a genedigaeth yn cytuno'n gyffredinol â phwysigrwydd casglu'r data hyn. Dywedodd dau ymatebydd nad yw'r wybodaeth hon yn cael ei choladu'n rheolaidd ar hyn o bryd ar ddechrau beichiogrwydd (data gwaelodlin) neu ar ôl 36 wythnos gan alw am ddefnyddio dull cyson a chadarn o gasglu data ar draws yr holl Fyrddau Iechyd, gydag awgrym i ddefnyddio statws smygu CO (carbon monocsid) wedi'i ddilysu yn unol â chanllawiau'r Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal (NICE). Awgrymwyd y gellid casglu data dilynol hefyd, i olrhain cynnydd smygwyr sy'n famau ar ôl yr enedigaeth i sicrhau eu bod yn cael eu cefnogi, a bod cynnydd yn cael ei wneud.
- 4.9 Mewn un rhan o bump o'r ymatebion a ddaeth i law, cafwyd sylwadau ar y targedau arfaethedig. O blith y rhain:
- roedd tuag un o bob deg eisiau gweld nodau penodol yn cael eu gosod mewn perthynas â grwpiau blaenoriaeth – gyda rhai yn amlygu'r angen am dargedau penodol ar gyfer pobl ifanc a menywod beichiog:
- ['Ymestyn y targed terfynol ar draws yr holl grwpiau blaenoriaeth yng Nghymru'](#)

'Byddem yn annog monitro llwyddiant ymysg grwpiau penodol o'r boblogaeth'

'Mae pryder y gall targedau cyffredinol gynyddu anghydraddoldebau yn hytrach na'u lleihau, felly rydym yn galw am fwy o dargedau cadarn ar gyfer 2024 ar gyfer grwpiau blaenoriaeth penodol, a allai helpu i gefnogi'r thema targedu anghydraddoldebau.'

- awgrymodd llai nag un o bob deg fod angen gosod targedau carreg filltir interim cyn 2030, gyda rhai'n awgrymu bod angen gosod y rhain yn nes at 2030 (yn hytrach nag o'r cychwyn cyntaf):

'Mae targedau canolradd yn ddefnyddiol i sicrhau bod y targed terfynol yn cael ei gyrraedd. Fel arall, mae'r targed terfynol yn debygol o gael ei fethu.'

'Er y gall ffigurau targed fod yn gymhelliant, gallant hefyd beri i bobl esgeuluso ymyriadau defnyddiol. Efallai y bydd angen targedau yn nes at 2030 er mwyn canolbwyntio ymdrechion'

'Byddwch yn ddewr, gosodwch dargedau mesuradwy bob 2 flynedd'

- 4.10 Teimlai nifer bach iawn o'r ymatebwyr y byddai diffiniad cliriach o'r hyn y mae gostyngiad 'fesul cam' yn ei olygu yn ddefnyddiol, ac nad oedd ganddynt ddigon o wybodaeth i roi sylwadau neu nad oeddent yn teimlo bod angen unrhyw ddull monitro:

'Rydym yn teimlo y byddai'n ddefnyddiol cynnwys diffiniad o 'leihad fesul cam', er enghraifft, p'un a yw'n lleihad cyson, neu'n lleihad sylweddol ac yna fan gwastad'

'Dylid dileu targedau hyd at a chan gynnwys 2030. Mae gosod targedau mympwyol yn rhoi pwysau diangen ar y llywodraeth'

- 4.11 Amlygodd nifer bach o ymatebion broblemau gyda'r ffigurau diweddaraf ar gyffredinrwydd smygu ymysg oedolion gan ychwanegu y dylid eu trin yn ofalus. Nodwyd y gallai'r lleihad sylweddol mewn ffigurau cyffredinrwydd smygu ymysg oedolion o gymharu â blynyddoedd blaenorol fod yn rhannol oherwydd bod y pandemig COVID-19 wedi dylanwadu ar y dull o gynnal yr arolwg. O'r herwydd, roedd galwad ar Lywodraeth Cymru:

'i drin y data diweddaraf o Arolwg Cenedlaethol Cymru ar gyffredinrwydd smygu yn ofalus'.

- 4.12 Nid oedd traean o'r ymatebion a gafwyd ar gyfer Cwestiwn 3 wedi ateb y cwestiwn yn uniongyrchol.

Cwestiwn 4

A oes unrhyw ffynonellau data eraill y dylid eu defnyddio i fonitro llwyddiant y strategaeth a'r cynllun cyflawni? Os felly, beth ydynt?

- 4.13 Cafwyd 120 o ymatebion i'r cwestiwn hwn ac roedd dwy ran o dair o'r rhain yn cynnig awgrymiadau ychwanegol ond nid oeddent bob amser yn darparu ffynonellau data penodol ar gyfer casglu'r data a awgrymwyd. Awgrymodd un rhan o bump o'r ymatebion ffynonellau data penodol ac ychwanegol y gellid eu defnyddio i fonitro llwyddiant y strategaeth.
- 4.14 Roedd chwarter yr ymatebion a ddaeth i law i Gwestiwn 4 yn galw am ymgorffori casglu data ar y defnydd o smygu o fewn dulliau casglu data presennol y GIG ar gyfer gofal sylfaenol ac eilaidd, gwasanaethau meddygon teulu a gwasanaethau deintyddiaeth. Nid oedd pob un o'r ymatebion hyn yn sôn am ffynonellau data penodol ond roedd galw clir am yr angen i gael gwell tystiolaeth o gyffredinrwydd smygu drwy ddata sy'n ymwneud ag iechyd er mwyn gallu targedu ymyriadau'n fwy effeithiol ar lefel leol:

'sbardun allweddol yw sicrhau bod statws smygu'n cael ei bennu ar gyfer pob unigolyn sy'n mynd i'r ysbyty fel claf allanol neu glaf mewnol, i leoliadau iechyd meddwl ac i apwyntiadau sgrinio gofal sylfaenol. Gwyddom nad yw'r cwestiwn hwn yn cael ei ofyn fel mater o drefn ... fel rhan o'r set ddata genedlaethol byddai'n fan cychwyn defnyddiol i fesur ffocws parhaus ar fynd i'r afael â smygu'.

- 4.15 Roedd awgrymiadau eraill gan ambell ymatebydd yn cynnwys:
- adroddiadau gan ysbytai mamolaeth am eu cyfarfodydd misol ar farwolaethau newyddenedigol
 - cofnodi statws smygu partner wrth gofrestru ac wrth eni – menywod beichiog

- cofnodi statws smygu claf pan gaiff ei dderbyn i'r ysbyty
- derbyniadau i'r ysbyty sy'n gysylltiedig â smygu.

4.16 Awgrymwyd ffynonellau data ychwanegol a phenodol ac fe'u hamlinellir yn y siart isod:

Tabl 4.2 Ffynonellau data ychwanegol a awgrymir i fonitro llwyddiant y Strategaeth Rheoli Tybaco i Gymru

Ffynhonnell Ddata	Rhesymeg dros ychwanegu'r ffynhonnell ddata
Data gwasanaethau Helpa fi i Stopio Cymru	Er mwyn sicrhau bod ystadegau rhoi'r gorau i smygu yn cynnwys dadansoddiad ar sail ardal o amddifadedd ar y nifer sy'n manteisio ar wasanaethau Er mwyn monitro llwyddiant y strategaeth a'r gwasanaeth rhoi'r gorau i smygu
Data Gorfodi Diogelu'r Cyhoedd awdurdodau lleol ac arolygon rheoli tybaco blynyddol	Er mwyn darparu data ar ymyriadau a gwaith gorfodi mewn perthynas â gwerthu tybaco i blant dan oed a data amgylcheddol ynghylch sbwriel sigarêts
Data Astudiaeth Pecyn Cymorth ar Smygu	Er mwyn darparu data amser real i lywio ymyriadau a mesur llwyddiant
Arolwg blynyddol ASH Cymru / Arolwg YouGov o agweddau'r cyhoedd tuag at reoli tybaco	Atgyfodi'r arolwg hwn gan ei fod yn cynnwys data defnyddiol.
Ymddygiad lechyd Cymru mewn Plant Oedran Ysgol	Er mwyn adrodd ar dueddiadau o ran y defnydd o dybaco ymhlith pobl ifanc 11 i 15 oed.
Arolwg bob dwy flynedd NEMS	Er mwyn casglu data ar nifer yr achosion o fasnachu tybaco anghyfreithlon

Ffynhonnell Ddata	Rhesymeg dros ychwanegu'r ffynhonnell ddata
Data Tracio ac Olrhain a gesglir yn chwarterol	Er mwyn cofnodi mynychder manwerthu a gweithgaredd y farchnad

4.17 Gwnaed ambell awgrym yn ychwanegol at yr uchod, ond ni chrybwyllwyd unrhyw ffynonellau data penodol ar gyfer casglu'r wybodaeth:

- y defnydd o e-sigaréts³
- gwerthu cynhyrchion nicotin a'r defnydd o dybaco yng Nghymru
- rhyw, statws economaidd-gymdeithasol, ac ethnigrwydd smygwyr.

4.18 Nid oedd un rhan o bump o'r ymatebion a gafwyd ar gyfer Cwestiwn 3 wedi ateb y cwestiwn yn uniongyrchol.

³ Gwnaed y rhan fwyaf o'r sylwadau hyn gan y diwydiant tybaco ac e-sigaréts/grwpiau lobiö

5. Cynlluniau cyflawni a meysydd gweithredu blaenoriaeth

5.1 Mae'r bennod hon yn ystyried y farn ar y cynlluniau cyflawni arfaethedig a'r meysydd gweithredu blaenoriaeth.

Cwestiwn 5

Er mwyn cefnogi'r gwaith o gyflawni'r strategaeth, ein bwriad yw cyhoeddi cyfres o gynlluniau cyflawni dwy flynedd. A ydych yn cytuno y dylem drefnu ein camau gweithredu yn gynlluniau cyflawni dwy flynedd?

Esboniwch pam mae'r strwythur yn gweithio'n dda neu amlinellwch sut y gellid ei wneud yn well.

5.2 Yn gyntaf, gofynnodd Cwestiwn 5 i'r cyfranwyr a oeddent yn cytuno â chynnig Llywodraeth Cymru i gyhoeddi cynlluniau cyflawni dwy flynedd. Roedd yr ymateb fel a ganlyn:

Tabl 5.1 A ydych yn cytuno y dylem drefnu ein camau gweithredu yn gynlluniau cyflawni dwy flynedd? [n=246]

	Nifer yr ymatebion	Canran (%)
Ydw	111	45%
Yn rhannol	20	8%
Nac ydw	91	37%
Dim ymateb	24	10%
Cyfanswm	246	100%

5.3 Rhoddwyd cyfle i'r ymatebwyr ymhelaethu ar eu hatebion ac egluro pam roedd y strwythur yn gweithio'n dda neu sut y gellid ei wella.

5.4 Daeth cyfanswm o 119 o ymatebion ysgrifenedig i law ar gyfer y cwestiwn hwn. O blith y rhain, nododd dros chwarter y rhesymau pam eu bod yn teimlo bod cyfres o gynlluniau cyflawni dwy flynedd yn strwythur priodol. Dywedwyd yn bennaf y byddai cynlluniau dwy flynedd yn caniatáu digon o amser i ddechrau rhoi newidiadau ar waith a gwneud rhywfaint o gynnydd tuag at amcanion y strategaeth, yn ogystal â chaniatáu i gynlluniau gael eu

haddasu'n rheolaidd yn ôl yr angen. O'r herwydd, gwelwyd bod cynlluniau dwy flynedd yn darparu strwythur er mwyn cynnal momentwm a hyblygrwydd i addasu i wersi newydd a ddysgwyd a thystiolaeth newydd:

'Bydd y dull hwn yn darparu hyblygrwydd er mwyn i'r ymateb fod yn ystwyth ac addasu i anghenion newidiol drwy gydol oes y strategaeth. Mae'r defnydd o gyfnodau amser dwy flynedd yn rhoi digon o amser i gamau gael eu rhoi ar waith gan sicrhau adolygiad rheolaidd i addasu i gyd-destun cymdeithasol a diwylliannol.'

- 5.5 Roedd tua dwy ran o bump o'r ymatebion yn pwysleisio'r angen i sefydlu trefniadau gwerthuso effeithiol ochr yn ochr â'r cynlluniau cyflawni. Amlygodd yr ymatebion hyn yr angen i fesur cynnydd yn effeithiol (gan gynnwys sefydlu Dangosyddion Perfformiad Allweddol (DPA) priodol) a'r defnydd effeithiol o ddata a thystiolaeth i arwain y camau nesaf. Roedd yr ymatebion hefyd yn argymhell sefydlu strwythurau gwerthuso mwy ffurfiol i gefnogi'r cynlluniau cyflawni, gan gynnwys adolygiadau canol tymor a strwythurau atebolrwydd priodol.

'Gweithio gyda [phartneriaid] i ddatblygu fframwaith i fonitro a gwerthuso cynlluniau cyflawni presennol a chynlluniau'r dyfodol. Dylai hyn gynnwys comisiynu tîm prosiect annibynnol, penodedig wedi'i ariannu'n llawn, i asesu cynnydd y strategaeth yn flynyddol...Rydym yn credu y bydd datblygu fframwaith o ansawdd uchel yn caniatáu i Lywodraeth Cymru addasu ei rhaglen weithgaredd yn gyflym a chefnogi'r gwaith o ddatblygu a chyflawni'r cynllun cyflawni unigol.'

- 5.6 Roedd nifer tebyg (llai na dwy ran o bump) o'r ymatebion yn argymhell cyfnodau neu strwythurau amser amgen. Awgrymodd rhai gynlluniau cyflawni blynyddol (neu gynlluniau cyflawni amlach), awgrymodd eraill gynlluniau tair blynedd ac awgrymodd rhai ddulliau gweithredu arfaethedig amgen (fel targedau cyffredinol i weithio tuag atynt yn hytrach na chynlluniau cyflawni). Rhoddwyd y rhesymeg dros y cyfnodau amser arfaethedig mewn ambell achos. Roedd y rhai a argymhellodd gynlluniau cyflawni blynyddol am weld cynnydd yn gynt na dwy flynedd, tra bod y rhai a awgrymodd gynlluniau

tair blynedd yn meddwl y byddai hyn yn cyd-fynd yn well â chylchoedd cynllunio.

'Mae cyllid presennol Llywodraeth Cymru o ran grantiau'r trydydd sector yn aml yn seiliedig ar gylch cyllido tair blynedd. Felly, byddai'n ddefnyddiol cysoni hyn â'r cylch cyllido er mwyn sicrhau y gellir gwneud gwaith ystyrlon.'

- 5.7 Mewn nifer bach o ymatebion (llai nag un o bob deg) gwnaed awgrymiadau'n ymwneud â chynnwys y cynlluniau cyflawni neu argymhellion ar gyfer sicrhau gweithrediad effeithiol. Ymhlith yr awgrymiadau roedd darparu camau gweithredu manylach a chyfrifoldebau o fewn cynlluniau cyflawni, sicrhau cydlyniant rhwng pob cynllun dwy flynedd, gweithio mewn partneriaeth i gyflawni'r camau gweithredu cysylltiedig, a sicrhau bod gan gynlluniau cyflawni adnoddau priodol a bod modd eu cyflawni.

'Ie, cyn belled â bod y neges yn parhau'n weddol gyson.'

- 5.8 Roedd rhai ymatebion hefyd yn datgan eu bod yn cytuno'n gyffredinol â strwythur y cynllun cyflawni arfaethedig heb roi rhagor o fanylion. Nododd ambell ymateb hefyd y gellid gwneud cynnydd cyflymach tuag at waharddiad llwyr ar dybaco, er mai ychydig o fanylion ychwanegol a ddarparwyd.
- 5.9 Roedd un ymatebydd yn arbennig yn falch o weld bod fersiwn clir ar gyfer pobl ifanc o'r cynlluniau cyflawni wedi'i chynhyrchu ac roedd yn 'croesawu'r dull o amlinellu'r hyn y bydd plant a phobl ifanc yn disgwyl ei weld'.
- 5.10 Ailadroddwyd rhai materion a godwyd mewn ymatebion i gwestiynau blaenorol yma hefyd. Cododd tuag un o bob deg ymateb y materion a ganlyn: bod y cynigion yn dileu rhyddid yr unigolyn i ddewis, eu bod yn wastraff adnoddau neu ymatebion a oedd yn beirniadu'r llywodraeth yn gyffredinol.

Cwestiwn 6

Yn y cynllun cyflawni cyntaf, sy'n ymdrin â'r cyfnod rhwng Ebrill 2022 a Mawrth 2024, rydym wedi grwpio'r camau y byddwn yn eu cymryd a'u gosod mewn pump o feysydd gweithredu blaenoriaeth:

- Maes Gweithredu Blaenoriaeth 1: Amgylcheddau di-fwg

- Maes Gweithredu Blaenoriaeth 2: Gwelliant parhaus a chefnogi arloesi
- Maes Gweithredu Blaenoriaeth 3: Grwpiau blaenoriaeth
- Maes Gweithredu Blaenoriaeth 4: Mynd i'r afael â thybaco anghyfreithlon a'r fframwaith cyfreithiol ar gyfer rheoli tybaco
- Maes Gweithredu Blaenoriaeth 5: Gweithio ar draws y DU

A ydych yn cytuno mai dyma'r meysydd gweithredu blaenoriaeth cywir i ganolbwyntio arnynt yng nghynllun cyflawni 2022-2024?

Esboniwch pam rydych chi'n ystyried bod y meysydd gweithredu blaenoriaeth yn gywir neu os ydych chi'n meddwl bod angen dull gweithredu gwahanol.

- 5.11 Yn gyntaf, gofynnodd Cwestiwn 6 a oedd y cyfranwyr yn cytuno mai dyma'r meysydd gweithredu blaenoriaeth cywir i ganolbwyntio arnynt yng nghynllun cyflawni 2022-2024. Roedd yr ymatebion fel a ganlyn:

Tabl 5.2 A ydych yn cytuno mai dyma'r meysydd gweithredu blaenoriaeth cywir i ganolbwyntio arnynt yng nghynllun cyflawni 2022-2024? [n=246]

	Nifer yr ymatebion	Canran (%)
Ydw	91	37%
Yn rhannol	50	20%
Nac ydw	84	34%
Dim ymateb	21	9%
Cyfanswm	246	100%

- 5.12 Rhoddwyd cyfle i'r ymatebwyr ymhelaethu ar eu hatebion ac egluro pam yr oeddent yn cytuno mai dyma'r meysydd gweithredu blaenoriaeth cywir neu a oeddent yn teimlo bod angen dull gweithredu gwahanol.
- 5.13 Daeth cyfanswm o 129 o ymatebion ysgrifenedig i law ar gyfer y cwestiwn hwn. Er bod rhai ymatebion yn gwneud sylwadau cyffredinol yn ymwneud â'r

blaenoriaethau yn gyffredinol, gwnaeth eraill sylwadau penodol yn ymwneud â meysydd blaenoriaeth unigol.

- 5.14 Mynegodd tuag un rhan o bump o'r ymatebion eu bod yn cytuno'n gyffredinol â'r blaenoriaethau ond gwnaethant fân awgrymiadau ynghylch gwelliannau cyffredinol. Roedd yr awgrymiadau hyn yn cynnwys sicrhau cyfatebiaeth glir rhwng y meysydd blaenoriaeth a'r tair thema strategol; ei gwneud yn glir nad yw'r blaenoriaethau wedi'u rhestru yn nhrefn blaenoriaeth neu eu gosod mewn trefn wahanol; sicrhau bod adnoddau digonol ar gael i wneud cynnydd yn erbyn y meysydd blaenoriaeth; a sefydlu mecanweithiau cyflawni ac atebolrwydd clir ar gyfer gwneud cynnydd yn erbyn y meysydd blaenoriaeth.

'[Rydym] yn cytuno'n gyffredinol â'r meysydd blaenoriaeth a amlinellir yn y cynllun cyflawni dwy-flynedd cyntaf. Ond rydym yn teimlo y dylid dileu'r rhifau sy'n gysylltiedig â'r meysydd blaenoriaeth neu y dylid eu hailrifo gan nad ydym yn teimlo bod y drefn bresennol yn adlewyrchu'r hyn a fyddai'n cael yr effaith fwyaf...Dylid neilltuo adnoddau digonol i bob maes blaenoriaeth, waeth beth for niferoedd.'

- 5.15 Rhoddodd tuag un rhan o bump o'r ymatebion resymau pam yr oeddent yn cytuno â **maes gweithredu blaenoriaeth 1** (amgylchedd di-fwg). Roedd yr ymatebion yn aml yn pwysleisio bod amgylcheddau di-fwg yn elfen hanfodol o strategaeth rheoli tybaco effeithiol gan y gallant atal smygu a lleihau risgiau iechyd sy'n gysylltiedig â mwg ail-law, yn enwedig i blant a phobl ifanc. Ystyrir bod amgylcheddau di-fwg presennol yn bwysig a gwelir eu bod wedi cyfrannu at ostyngiad mewn cyfraddau smygu; mae'r ymatebwyr felly yn deall yr achos dros ehangu amgylcheddau o'r fath. Mae sefydlu amgylcheddau di-fwg hefyd yn cael ei ystyried yn faes blaenoriaeth llai cymhleth lle y gellir cymryd camau ar unwaith fwy neu lai.

'Mae amgylcheddau di-fwg yn lleihau cysylltiad â mwg ail-law mewn ffordd na fyddai canolbwyntio ar leihau ymddygiad smygu unigolion yn unig yn ei wneud. Maent hefyd yn cael effaith ddiwylliannol o ddadnormaleiddio smygu.'

- 5.16 Gwnaeth cyfran lai (ychydig dros un o bob deg) awgrymiadau ar gyfer gwelliannau posibl i faes gweithredu blaenoriaeth 1. Roedd llawer o'r rhain

yn welliannau cymharol fach neu'n awgrymiadau ar gyfer newid rhywfaint ar y ffocws. Er enghraifft, roedd yr ymatebion yn awgrymu y dylid sicrhau bod unrhyw newidiadau deddfwriaethol yn cael eu cyfleu'n glir drwy ymgyrchoedd cyhoeddus; y dylai'r maes blaenoriaeth hwn ganolbwyntio ar adeiladu ar y cynnydd a wnaed hyd yma mewn perthynas ag amgylcheddau di-fwg; y dylai'r maes blaenoriaeth gynnwys ffocws ar gysylltiad plant â mwg yn y cartref; ac y dylid ystyried yn ofalus sut y byddai'r 'defnydd o e-sigaréts' yn cael ei gynnwys neu ei hepgor mewn amgylcheddau di-fwg.

'Mae angen rhoi cyhoeddusrwydd i'r ddeddfwriaeth hon, ei gweithredu'n llawn, a'i gorfodi gan awdurdodau lleol yn ôl yr angen. Byddai canllawiau pellach yn cael eu croesawu ar sut y gellir cyflawni hyn yn llawn.'

- 5.17 Fodd bynnag, cafwyd ambell awgrym neu bryder mwy arwyddocaol yn ymwneud â'r maes blaenoriaeth. Ymysg yr enghreifftiau mae dadflaenoriaethu amgylcheddau di-fwg oherwydd bod cynnydd sylweddol eisoes wedi'i wneud yn y maes hwn a byddai'n well blaenoriaethu adnoddau mewn mannau eraill; cael gwared ar y maes blaenoriaeth yn gyfan gwbl oherwydd gallai gorfodi rhagor o amgylcheddau di-fwg gael effaith negyddol ar y sector lletygarwch a rhyddid busnesau preifat; a byddai darbwyllo a/neu gymorth i roi'r gorau i smygu yn fwy effeithiol na rheoleiddio amgylcheddau di-fwg.

'Rwy'n teimlo y bydd cyfyngu ar allu pobl i smygu y tu allan yn niweidiol i farn y cyhoedd am y Senedd. Mae yna lawer iawn o bobl hŷn sy'n smygu ac ni fyddant yn rhoi'r gorau iddi nawr gan ei fod yn arfer sydd wedi'i hen sefydlu; byddai'n anodd iawn iddyn nhw.'

- 5.18 Rhoddodd ychydig dros un o bob deg o ymatebwyr resymau pam yr oeddent yn cytuno â **maes gweithredu blaenoriaeth 2** (gwelliant parhaus a chefnogi arloesi). Nododd yr ymatebion fod arloesi a pharodrwydd i arbrofi a dysgu o dystiolaeth newydd yn allweddol i wneud cynnydd da yn erbyn strategaeth uchelgeisiol. Nododd yr ymatebion hefyd ei bod yn hanfodol dod o hyd i ffyrdd effeithiol o annog unigolion i beidio â smygu ac y byddai angen dulliau arloesol er mwyn gwneud hynny, tra'n pwysleisio'n benodol yr angen i

ddarparu cymorth rhagorol a mecanweithiau ataliol. Ystyrir bod dulliau ataliol a chymorth i roi'r gorau iddi yn arbennig o bwysig i bobl ifanc.

'Mae smygu'n effeithio ar iechyd pobl ifanc drwy gydol eu hoes, ac mae cysylltiad rhwng dechrau smygu'n gynnar a lefelau uwch o smygu a dibyniaeth, llai o siawns o roi'r gorau iddi a chyfraddau uwch o farwolaethau. Mae hyrwyddo ffyrdd iach o fyw ac atal pobl rhag mynd yn sâl yn allweddol i leihau baich afiechyd nawr ac yn y dyfodol a sicrhau bod pawb yn gallu byw bywydau hir ac iach. Mae 84% o blant a phobl ifanc yn meddwl nad oes digon o ymwybyddiaeth o ymddygiad iach ac nid yw 81% yn teimlo bod digon o gymorth ar gael i'w helpu i wybod beth i'w wneud.'

- 5.19 Gwnaeth cyfran ychydig yn fwy (ychydig dros un rhan o bump o'r ymatebion) awgrymiadau ar gyfer gwelliannau posibl i faes gweithredu blaenoriaeth 2. Roedd llawer o'r rhain yn welliannau cymharol fach neu'n awgrymiadau ar gyfer newid rhywfaint ar y ffocws. Yn benodol, pwysleisiodd yr ymatebion yr angen i ganolbwyntio'n gliriach ar ddarparu cymorth ar gyfer rhoi'r gorau iddi (yn enwedig ar gyfer rhai grwpiau blaenoriaeth fel y rhai sy'n ymwneud â gwasanaethau iechyd meddwl) a'r angen i weithio gyda sefydliadau partner (fel ysgolion) sydd eisoes yn gweithio gyda grwpiau blaenoriaeth. Roedd rhai ymatebion yn argymhell ystyried cynhyrchion nicotin amgen fel ffordd o gefnogi pobl i roi'r gorau i smygu.

'Rydym yn cefnogi'r bwriad i adolygu dulliau cyflawni arloesol ar gyfer gwasanaethau rhoi'r gorau i smygu fel modd o ehangu cyrhaeddiad a gwella mynediad. Fodd bynnag, ni ddylai awydd i fod yn arloesol dynnu sylw oddi wrth yr angen i roi pethau y gwyddom eu bod yn gweithio'n effeithiol ar waith. Mae'n bosibl y gall cymorth effeithiol ar gyfer rhoi'r gorau i smygu gyfrannu at leihau anghydraddoldebau iechyd ac, fel y cyfryw, dylid ei flaenoriaethu.'

- 5.20 Fodd bynnag, cafwyd ambell awgrym neu bryder mwy arwyddocaol yn ymwneud â'r maes blaenoriaeth. Yn benodol, roedd yr ymatebion yn awgrymu na ddylai gwelliant parhaus a chefnogi arloesedd fod yn faes blaenoriaeth ar ei ben ei hun ond yn hytrach yn thema sy'n sail i'r strategaeth gyfan.

'Mae gwelliant parhaus a chefnogi arloesi yn egwyddorion sylfaenol allweddol y dylid eu cymhwyso a'u gwreiddio ar draws yr holl feysydd gweithredu blaenoriaeth yn y strategaeth a'r cynllun cyflawni, ac nid o reidrwydd gael eu hystyried yn faes gweithredu blaenoriaeth ar wahân.

- 5.21 Rhoddodd ychydig dros un o bob deg o ymatebion resymau pam yr oeddent yn cytuno â **maes gweithredu blaenoriaeth 3** (grwpiau blaenoriaeth). Roedd yr ymatebion hyn yn aml yn darparu tystiolaeth ychwanegol i gefnogi cynnwys grwpiau blaenoriaeth amrywiol, yn enwedig plant a phobl ifanc, pobl o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol difreintiedig a menywod beichiog. Roeddent yn cytuno bod cyffredinrwydd smygu yn uwch ymhlith y grwpiau blaenoriaeth hyn, yn seiliedig ar eu profiad a'u gwybodaeth eu hunain.

'Bydd canolbwyntio ar gefnogi'r grwpiau hyn i roi'r gorau i smygu yn sicrhau bod lleihau anghydraddoldebau iechyd yn cael lle blaenllaw o ran camau gweithredu ar reoli tybaco yng Nghymru... Mae grwpiau blaenoriaeth yn cael eu heffeithio gan smygu mewn nifer o ffyrdd, er enghraifft: mae plant a phobl ifanc yn cael eu heffeithio'n fwy gan fwg ail-law nag oedolion. Mae pobl ifanc o deuluoedd llai cefnog ddwywaith yn fwy tebygol o ddweud eu bod yn smygu na'u cymheiriaid mwy cefnog.'

- 5.22 Gwnaeth cyfran lai (un o bob deg) awgrymiadau ar gyfer gwelliannau posibl i faes gweithredu blaenoriaeth 1. Roedd y rhan fwyaf o'r rhain yn welliannau cymharol fach neu'n awgrymiadau ar gyfer newid rhywfaint ar y ffocws. Er enghraifft, roedd yr ymatebion yn argymhell gweithio ar y cyd â grwpiau blaenoriaeth i sefydlu mecanweithiau cymorth effeithiol ac ystyried rhesymau strwythurol pam mae smygu yn fwy cyffredin ymhlith y grwpiau blaenoriaeth. Awgrymodd rhai ymatebion hefyd grwpiau blaenoriaeth ychwanegol y dylid eu cynnwys, megis plant â phrofiad o ofal, pobl sy'n ddigartref a phobl sydd yn y carchar.

'Mae ymyrraeth wedi'i thargedu gyda'r grwpiau hyn yn gofyn am ymgysylltu ac ymwneud yn weithredol â'r grwpiau i sicrhau bod atebion ar y cyd yn cael eu nodi.'

5.23 Rhoddodd ychydig dros un o bob deg ymatebydd resymau pam yr oeddent yn cytuno â **maes gweithredu blaenoriaeth 4** (mynd i'r afael â thybaco anghyfreithlon a'r fframwaith cyfreithiol ar gyfer rheoli tybaco). Roedd yr ymatebion hyn yn aml yn nodi y bydd tybaco anghyfreithlon yn tanseilio amcanion y strategaeth ehangach ac yn ei gwneud yn anodd i reoliadau gael eu gorfodi'n effeithiol. Nododd yr ymatebion hefyd fod rhai o'r grwpiau blaenoriaeth – pobl ifanc a'r rhai o gefndiroedd cymdeithasol-economaidd difreintiedig yn bennaf – yn fwy tebygol o gael eu heffeithio gan fynediad at dybaco anghyfreithlon, gan wneud mynd i'r afael â'r mater hwn hyd yn oed yn bwysicach yng nghyd-destun meysydd blaenoriaeth eraill.

'Blaenoriaeth bwysig; bydd methu â mynd i'r afael â'r cyflenwad o dybaco anghyfreithlon yn tanseilio'r ddeddfwriaeth ar hygyrchedd a fforddiadwyedd gwerthiannau tybaco sydd wedi cyfrannu at ostyngiad mewn cyfraddau smygu.'

5.24 Gwnaeth cyfran lai (ychydig dros un o bob deg) awgrymiadau ar gyfer gwelliannau posibl i faes gweithredu blaenoriaeth 1. Roedd llawer o'r rhain yn welliannau cymharol fach neu'n awgrymiadau ar gyfer newid rhywfaint ar y ffocws. Roedd y rhain yn cynnwys tynnu sylw at yr angen i ystyried sut y gellid rhoi'r maes gweithredu blaenoriaeth hwn ar waith yn effeithiol (fel cyfrifoldebau awdurdodau lleol a gweithio trawsffiniol), gan awgrymu bod y maes blaenoriaeth yn cael ei ymestyn i gynnwys cyflenwad anghyfreithlon o gynhyrchion nicotin eraill a chanolbwyntio ychydig yn fwy neu ychydig yn llai ar feysydd blaenoriaeth eraill. Fodd bynnag, roedd rhai yn awgrymiadau neu'n bryderon mwy arwyddocaol yn ymwneud â'r maes blaenoriaeth. Roedd y rhan fwyaf o'r rhain yn dadlau na fyddai mesurau i fynd i'r afael â thybaco anghyfreithlon yn effeithiol ac y byddent yn anodd eu gorfodi.

'Mae tybaco anghyfreithlon yn fwy peryglus felly mae'n flaenoriaeth dda, ond byddwn yn tybio ei fod yn effeithio ar ffiniau ac ar y DU yn genedlaethol nid dim ond ar Gymru.'

5.25 Rhoddodd ychydig dros un o bob deg o ymatebwyr resymau pam yr oeddent yn cytuno â **maes gweithredu blaenoriaeth 5** (gweithio ar draws y DU). Y prif reswm a roddwyd oedd y byddai cydweithio ar draws y DU yn galluogi

rhannu arloesi, arfer gorau a gwersi a ddysgwyd – byddai hyn yn sicrhau bod gan Lywodraeth Cymru fynediad at y dulliau gweithredu mwyaf effeithiol. Mae gweithio ar draws y DU hefyd yn cael ei ystyried yn bwysig er mwyn sicrhau cysondeb o ran y dull gweithredu a'r cymorth sydd ar gael i unigolion ledled y DU, yn enwedig gan nad yw pob cam gweithredu ar reoli tybaco o reidrwydd yn faterion datganoledig.

'Er bod gan y pedair gwlad eu hagendâu a'u cyfrifoldebau iechyd eu hunain, mae ymateb cydgysylltiedig yn hanfodol i sicrhau bod oedolion sy'n smygu ledled y DU gyfan yn cael yr un cyfle i gael mynediad at ddewisiadau eraill a allai leihau niwed, a bod y dewisiadau amgen hyn yn effeithiol ac yn llwyddiannus⁴.'

- 5.26 Gwnaeth cyfran lai (ychydig o dan un o bob deg) awgrymiadau ar gyfer gwelliannau posibl i faes gweithredu blaenoriaeth 5. Roedd rhai o'r rhain yn welliannau cymharol fach neu'n awgrymiadau ar gyfer newid rhywfaint ar y ffocws, megis canolbwyntio ar waith cenedlaethol effeithiol yng Nghymru yn gyntaf neu ailaddasu ffocws y maes blaenoriaeth hwn i weithio ar lefel ryngwladol. Fodd bynnag, roedd rhai yn awgrymiadau neu'n bryderon mwy arwyddocaol yn ymwneud â'r maes blaenoriaeth. Yn yr un modd â maes gweithredu blaenoriaeth 2, roedd ymatebion yn awgrymu na ddylai gweithio ar draws y DU fod yn faes blaenoriaeth ar ei ben ei hun ond yn hytrach yn thema sy'n sail i'r strategaeth gyfan. Dywedodd rhai mai gwerth cyfyngedig fyddai i weithio ar draws y DU.

'Ni allaf weld pam mae'n rhaid i ni fabwysiadu dull gweithredu ar gyfer y DU - mae gennym gyfrifoldeb i addysgu pobl Cymru a chwarae ein rhan yn hyn o beth'.

- 5.27 Ailadroddodd tuag un rhan o bump o'r ymatebion bwyntiau a godwyd yn gynharach yn eu hymatebion i'r ymgynghoriad, gan nodi bod y cynigion yn dileu rhyddid yr unigolyn i ddewis neu'n wastraff adnoddau.

⁴ Y diwydiant tybaco ac e-sigaréts/grwpiau lobbio

6. Camau allweddol a'r rhai nad ydynt wedi'u cynnwys yn y strategaeth ddrafft

- 6.1 Mae'r bennod hon yn ystyried yr ymatebion i Gwestiynau 7 ac 8 ar gamau gweithredu arfaethedig o fewn pob maes gweithredu blaenoriaeth.
- 6.2 Daeth 94 o ymatebion i law ar gyfer Cwestiwn 7 a 114 ar gyfer Cwestiwn 8. Mae'r ymatebion hyn wedi'u dadansoddi gyda'i gilydd, gan fod yr ymatebion yn aml yn codi themâu tebyg mewn ymateb i'r ddau gwestiwn; yn ymateb i un cwestiwn drwy ddarparu atebion i'r ddau; yn dehongli cwestiwn 7 fel un a oedd yn gofyn am unrhyw gamau allweddol nad ydynt wedi'u cynnwys yn y strategaeth ddrafft; neu'n trafod camau gweithredu yr ymdriniwyd â hwy eisoes mewn ymateb i gwestiwn 8. Mae'r themâu a nodwyd wedi'u hadrodd o dan y cwestiwn mwyaf priodol, yn seiliedig ar gyfanswm o 128 o ymatebion sydd wedi ateb cwestiwn 7, cwestiwn 8 neu'r ddau.

Cwestiwn 7

Rydym wedi datblygu nifer o gamau gweithredu ym mhob maes gweithredu blaenoriaeth. Ydych chi o'r farn mai'r rhain yw'r rhai cywir?

Eglurwch pam bod y camau gweithredu'n gywir neu sut y gellir eu gwella.

- 6.3 Yn gyntaf, mae cwestiwn 7 yn gofyn ai'r camau gweithredu a ddatblygwyd o fewn pob maes gweithredu blaenoriaeth yw'r rhai cywir.

Tabl 6.1 Ydych chi'n teimlo mai'r camau gweithredu a ddatblygwyd o fewn pob maes gweithredu blaenoriaeth yw'r rhai cywir? [n=246]

	Nifer yr ymatebion	Canran (%)
Ydw	69	28%
Yn rhannol	60	24%
Nac ydw	85	35%
Dim ymateb	32	13%
Cyfanswm	246	100%

6.4 Darparodd tuag un rhan o bump o'r ymatebion awgrymiadau ar wella'r camau gweithredu sy'n ymwneud â rôl e-sigaréts a chynhyrchion nicotin eraill (cam gweithredu 3 o dan faes blaenoriaeth 2). Roedd consensws cyfyngedig yn yr ymatebion ynghylch yr hyn y dylai'r cam gweithredu arfaethedig ei gynnwys, ond roedd yr angen am gamau gweithredu mwy pendant neu ddatganiad sefyllfa yn ymwneud â chynhyrchion o'r fath yn thema gyffredinol. Roedd hyn yn cynnwys safiad cliriach ar fabwysiadu cynhyrchion nicotin fel arf i leihau niwed, datganiadau cliriach ar y cynllun i gasglu tystiolaeth a bwrw ymlaen yn ofalus ac yn effeithiol i orfodi deddfwriaeth yn ymwneud ag oedran:

'Mae angen mabwysiadu safbwynt pendant ar rôl a/neu niwed e-sigaréts cyn gynted â phosibl.'

'Cyfarwyddyd cliriach mewn perthynas â'r dystiolaeth a safbwynt Cymru ar e-sigaréts'.

6.5 Awgrymodd tuag un rhan o bump welliannau posibl i'r camau gweithredu sy'n ymwneud â grwpiau blaenoriaeth (maes blaenoriaeth 3). Roedd yr ymatebwyr hyn yn cytuno â'r camau gweithredu arfaethedig yn gyffredinol ond yn rhoi cryn fanylion am y dystiolaeth ar gyfer blaenoriaethu grwpiau o'r fath a mesurau effeithiol y dylid eu cynnwys fel rhan o'r camau gweithredu arfaethedig ar gyfer pob grŵp. Y prif grwpiau blaenoriaeth a amlygwyd gan yr ymatebion oedd plant a phobl ifanc, menywod beichiog, y rhai sy'n ymwneud â gwasanaethau iechyd meddwl a phobl o gefndiroedd lle ceir amddifadedd economaidd-gymdeithasol. Cynigiwyd ystod eang o gamau gweithredu ychwanegol manwl, er enghraifft safoni sgrinio ar gyfer menywod beichiog a sefydlu ymyriadau yn yr ysgol ar gyfer plant a phobl ifanc.

'Ymgynghorwch â phobl ifanc yn uniongyrchol i glywed eu profiadau o smygu. Gweithiwch gyda nhw i ddatblygu ymyriadau y maen nhw'n credu a fyddai'n gweithio i leihau'r defnydd o dybaco yn eu cymunedau.'

'Dylai ymwelwyr iechyd (neu weithwyr iechyd proffesiynol eraill yn y gymuned) gynnig profion anadl i bob menyw feichiog i fonitro cyffredinrwydd smygu, ochr yn ochr â chynghor ar wasanaethau rhoi'r gorau i smygu lleol.'

6.6 Darparodd ychydig yn llai nag un rhan o bump resymau pam yr oeddent yn credu mai'r camau gweithredu arfaethedig o dan bob maes blaenoriaeth yw'r rhai cywir (hyd yn oed os aethant ymlaen wedyn i gynnig gwelliannau). Yn bennaf, darparwyd tystiolaeth ychwanegol ganddynt i gefnogi'r camau gweithredu arfaethedig, megis data ar gyfraddau smygu a thystiolaeth yn ymwneud ag effeithiolrwydd camau gweithredu arfaethedig. Dywedodd rhai eu bod, yn seiliedig ar eu harbenigedd proffesiynol eu hunain, yn croesawu'r camau gweithredu arfaethedig.

'Rwy'n teimlo bod pob cam gweithredu yn y meysydd gweithredu blaenoriaeth wedi'i gynllunio'n dda a'i ystyried yn ofalus. Credaf y bydd dilyn y camau hyn yn unol â'r flaenoriaeth yn arwain at ostyngiad yn yr ystadegau smygu yng Nghymru.'

'Mae [ein sefydliad] yn croesawu cynlluniau Llywodraeth Cymru i archwilio dulliau arloesol a digidol i leihau'r nifer sy'n dechrau smygu a hybu rhoi'r gorau i smygu ac mae'n credu y dylai'r cam hwn fod yn flaenoriaeth yn yr amserlen 2022-24.'

6.7 Pwysleisiodd tuag un o bob deg ymateb yr angen i gynnwys camau gweithredu ychwanegol yn ymwneud â chasglu tystiolaeth. Roeddent yn argymhell casglu data cyson, rheolaidd i gefnogi'r camau gweithredu arfaethedig, i werthuso ac adolygu gwahanol ddulliau yn barhaus ac i gasglu tystiolaeth yn ymwneud â'r dulliau mwyaf effeithiol yn y dyfodol (gan gynnwys tystiolaeth ryngwladol).

'Mandad cliriach ar yr hyfforddiant gofynnol a'r data y mae'n ofynnol ei gofnodi e.e. gwneud cofnodi statws smygu yn orfodol. Dangosfwrdd canlyniadau a set ddata y cytunwyd arnynt yn genedlaethol'

6.8 Cododd cyfran lai o'r ymatebion (llai nag un o bob deg) bob un o'r themâu canlynol:

- cytundeb cyffredinol â'r camau gweithredu arfaethedig heb ddarparu rhagor o fanylion
- yr angen i gynnwys amcanion, canlyniadau a thargedau manylach fel rhan o'r camau gweithredu, megis amcanion CAMPUS

- manylion ychwanegol y gellid eu cynnwys mewn perthynas â modelau arfaethedig ar gyfer rhoi'r gorau i smygu, gan gynnwys amlygu rôl gwasanaethau gofal sylfaenol a manylion am sut olwg ddylai fod ar wasanaeth rhoi'r gorau i smygu systematig mewn gofal eilaidd.

6.9 Manteisiodd tua chwarter yr ymatebwyr ar y cyfle hwn i ailbwysleisio pwyntiau a godwyd yn gynharach yn eu hymatebion i'r ymgynghoriad, gan nodi bod y cynigion yn dileu rhyddid yr unigolyn i ddewis neu'n wastraff adnoddau.

Cwestiwn 8

A ydych yn credu bod unrhyw gamau allweddol nad ydynt wedi'u cynnwys yn y meysydd gweithredu blaenoriaeth? Os felly, beth ydynt?

6.10 Roedd tuag un o bob deg ymateb yn pwysleisio'r angen i weithredu a gorfodi deddfwriaeth a rheoliadau presennol sy'n ymwneud â rheoli tybaco. Codwyd hyn yn arbennig mewn perthynas â maes gweithredu blaenoriaeth 1 (amgylcheddau di-fwg), gyda'r ymatebion yn nodi'r angen i orfodi ac adolygu camau gweithredu sy'n ymwneud â Deddf Iechyd y Cyhoedd Cymru (2017). Argymhellodd yr ymatebwyr hefyd y dylid gorfodi deddfwriaeth yn ymwneud â gwerthu tybaco a chynhyrchion nicotin i rai dan oed a rheoliadau sy'n ymwneud â chadwyni cyflenwi.

'Drwy Ddeddf Iechyd y Cyhoedd Cymru (2017), mae Gweinidogion Cymru wedi ehangu manau di-fwg yng Nghymru yn ddiweddar... mae [ein sefydliad] yn argymhell bod y manau di-fwg arfaethedig yn cael eu rhoi ar waith mewn modd amserol a bod camau gweithredu'n cynnwys hyrwyddo gwasanaethau rhoi'r gorau i smygu a gwneud y mwyaf o effaith.'

Ceir 'ystod o sancsiynau sydd wedi'u hanelu at reoli'r cyflenwad o dybaco drwy dargedu cyflenwi cynnyrch anghyfreithlon a gwerthiannau i bobl ifanc dan oed. Nid oes yr un o'r darpariaethau hyn wedi'u rhoi ar waith eto a byddai'n ddefnyddiol gwybod beth yw'r bwriadau presennol mewn perthynas â hyn.'

6.11 Roedd tuag un o bob deg ymateb hefyd yn argymhell camau gweithredu manylach yn ymwneud â rôl gweithwyr proffesiynol a phartneriaid wrth gefnogi'r meysydd gweithredu blaenoriaeth arfaethedig. Roedd yr ymatebion yn rhoi enghreifftiau o'r mathau o weithwyr proffesiynol a fydd yn chwarae rhan allweddol wrth weithredu'r Cynllun Cyflawni ar Reoli Tybaco, megis fferyllwyr, nyrsys, bydwragedd, gweithwyr gofal sylfaenol proffesiynol a'r rhai sy'n gweithio ym maes safonau masnach. Rhoddwyd hefyd enghreifftiau o bartneriaethau allweddol a fyddai'n angenrheidiol i gyflawni'r cynllun, gan gynnwys sefydliadau'r trydydd sector a phartneriaid cenedlaethol ar lefel y DU.

'Mae angen ystyried y gwahanol staff sy'n ymwneud â chymorth rhoi'r gorau i smygu, bandio priodol a'r ystod o sgiliau proffesiynol, gan safoni'r hyn a gynigir ledled Cymru.'

'Hoffem weld Gwasanaeth [meddyginiaethol] Fferylliaeth Gymunedol ar gael ym mhob bwrdd iechyd fel rhan o Helpa Fi i Stopio yn y Fferyllfa ac rydym yn argymhell y dylai pob fferyllfa allu cynnig gwasanaeth lefel 2 heb unrhyw gyfyngiadau comisiynu.'

6.12 Cododd cyfrannau llai (llai nag un o bob deg ym mhob achos) y themâu canlynol:

- yr angen cyffredinol am fwy o gamau gweithredu sy'n ymwneud â darparu mwy o fynediad at gymorth ataliol neu roi'r gorau iddi, gan sicrhau nad yw cymorth yn stigmatiddio nac yn cosbi pobl:

'Rwy'n meddwl bod angen mwy o gymorth ar smygwyr a hefyd mae'r naratif presennol bod smygwyr a smygu yn ofnadwy (sydd i raddau yn wir am smygu) wedi dieithrio'r gymuned smygu rhag bod eisiau gwneud yn well.'

- yr angen i gymryd camau i wahardd cynhyrchion tybaco yn gynt (yn enwedig ar gyfer grwpiau oedran iau)
- camau gweithredu sy'n ymwneud â darparu hyfforddiant priodol ar gyfer gweithwyr proffesiynol perthnasol ac adnoddau i gefnogi pob maes gweithredu blaenoriaeth:

'Rhaid darparu hyfforddiant i'r holl staff a rhaid i hynny fod yn rhan o'u hamserlen hyfforddi orfodol. Byddai canllaw sy'n cynnwys cyfarwyddiadau clir ar gymorth rheng flaen priodol yn ddefnyddiol er gwybodaeth.'

- defnydd cynyddol o gymhellion i annog pobl i roi'r gorau i smygu, yn enwedig ar gyfer grwpiau blaenoriaeth
- enghreifftiau o leoliadau penodol y mae angen eu nodi fel rhan o faes gweithredu blaenoriaeth 1 (amgylchedd di-fwg), gan gynnwys cartrefi
- pwysigrwydd ymgyrchoedd cyfryngau torfol effeithiol fel rhan o'r cynllun cyflawni cyffredinol ar reoli tybaco, gyda thystiolaeth i ddangos eu heffeithiolrwydd wrth gefnogi atal a rhoi'r gorau i smygu:

'Mae ymgyrchoedd yn y cyfryngau torfol wedi bod yn elfen allweddol o strategaeth rheoli tybaco'r DU ers y 2000au cynnar, ac mae tystiolaeth gref y gall ymgyrchoedd rheoli tybaco o'r fath gynyddu nifer yr oedolion sy'n rhoi'r gorau i smygu a lleihau'r nifer sy'n dechrau smygu.'

- camau gweithredu cyfannol sy'n ystyried ffactorau sy'n dylanwadu ar smygu, gan gynnwys defnyddio canabis, alcohol neu gyffuriau ac anghydraddoldebau strwythurol:

'Mae smygu yn aml yn strategaeth hunanfeddyginiaethu ar gyfer problemau eraill...mae'n cuddio iselder, gorbryder, a phethau eraill. Mae'n helpu i reoli'r awydd i fwyta bwyd nad yw'n iach, ac mae bron yn amhosibl cael mynediad at wasanaethau cwnsela neu gymorth iechyd meddwl sylfaenol yn lle hynny er mwyn cael cymorth i fynd at wraidd y mater.'

7. Cyfatebiaeth â pholisïau

- 7.1 Mae'r bennod hon yn ystyried Cwestiwn 9 ynghylch a yw'r strategaeth a'r cynllun cyflawni yn cyd-fynd â meysydd polisi ac ymarfer perthnasol eraill.

Cwestiwn 9

A yw'r strategaeth a'r cynllun cyflawni yn cyd-fynd â meysydd polisi ac ymarfer perthnasol eraill?

Esboniwch pam y mae'n cyd-fynd yn dda neu amlinellwch sut y gellid ei wneud yn well.

- 7.2 Yn gyntaf, gofynnwyd i'r cyfranwyr a oeddent yn teimlo bod y strategaeth a'r cynllun cyflawni yn cyd-fynd â meysydd polisi ac ymarfer perthnasol eraill. Roedd yr ymateb fel a ganlyn:

Tabl 7.1 A yw'r strategaeth a'r cynllun cyflawni yn cyd-fynd â meysydd polisi ac ymarfer perthnasol eraill? [n=246]

	Nifer yr ymatebion	Canran (%)
Ydy	76	31%
Yn rhannol	43	17%
Nac ydy	82	33%
Dim ymateb	45	18%
Cyfanswm	246	100%

- 7.3 Rhoddwyd cyfle i'r cyfranwyr ymhelaethu ar eu hatebion ac egluro pam roedd y strategaeth a'r cynllun gweithredu yn cyd-fynd yn dda â meysydd polisi ac ymarfer eraill neu sut y gellid ei gwella. Daeth cyfanswm o 76 o ymatebion ysgrifenedig i law ar gyfer y cwestiwn hwn.
- 7.4 Esboniodd dros chwarter yr ymatebion pam mae'r strategaeth a'r cynllun cyflawni yn cyd-fynd yn dda â strategaethau, pholisïau, neu ymarfer. Nodwyd bod y strategaeth a'r cynllun cyflawni yn cyd-fynd yn dda â strategaethau penodol neu debyg, gan gynnwys Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, Cymru Iachach, Strategaeth Adfer o Covid-19 Llywodraeth

Cymru a Chynlluniau Gweithredu Strategol ar Gydraddoldeb Hiliol. Nodwyd hefyd eu bod yn cyd-fynd â meysydd polisi amrywiol sy'n berthnasol i Lywodraeth Cymru a'r ymatebwyr, gan gynnwys blaenoriaethau Safonau Masnach, lleihau anghydraddoldebau iechyd, gwella mynediad at ofal iechyd, gwydnwch, a rheoli troseddau:

'Mae cyfatebiaeth gref rhwng y strategaeth a nifer o feysydd polisi ac ymarfer allweddol a nodwyd gan Lywodraeth Cymru yn Cymru Iachach a strategaeth y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar gyfer y chweched Senedd a chan y gweithlu fferylliaeth drwy Fferylliaeth: Cyflawni Cymru Iachach.'

'Mae'r strategaeth yn cyd-fynd â Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol a'n strategaeth ar gyfer iechyd drwy edrych ar waith atal, plant ac anghydraddoldebau yn benodol.'

- 7.5 Roedd nifer bach (pedwar) o'r ymatebion yn dadlau y dylai'r strategaeth ymgorffori ethos Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn llawn, gan nodi:

'Byddem yn awgrymu y dylai'r pum ffordd o weithio a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) gael eu hymgorffori mewn cynlluniau cyflawni yn y dyfodol. Bydd hyn yn sicrhau bod smygwyr, eu teuluoedd a'r cymunedau a'r sefydliadau sy'n eu cefnogi yn cymryd rhan yn y gwaith o ddatblygu camau gweithredu.'

- 7.6 Esboniodd dros un rhan o bump o'r ymatebwyr pam mae'r strategaeth a'r cynllun cyflawni yn cyd-fynd yn dda â strategaethau, polisiâu, neu ymarfer. Yn benodol, nodwyd bod angen datganiad clir o ymrwymiad Llywodraeth Cymru i Gonfensiwn Fframwaith Sefydliad Iechyd y Byd ar Reoli Tybaco (FCTC) fel rhan o'r strategaeth, yn ogystal ag ymrwymiad cysylltiedig i warchod penderfyniadau polisi rhag dylanwad y diwydiant tybaco:

'[Rydym yn argymhell] bod rhwymedigaethau'r FCTC yn cael eu hymgorffori yn y strategaeth, gan gyfeirio'n benodol at weithredu Erthygl 5.3, sy'n diogelu polisiâu iechyd rhag buddiannau personol y rhai yn y diwydiant tybaco.'

- 7.7 Amlygodd yr ymatebion hyn hefyd yr angen am gyfatebiaeth gliriach â pholisiâu ehangach, megis y rhai sy'n ymwneud ag iechyd meddwl, camddefnyddio sylweddau, anabledau dysgu a defnyddio canabis, yn

ogystal â pholisïau sy'n ymwneud â nyrsio a'r Cynllun Ysgolion Iach. Pwysleisiodd rhai hefyd yr angen am well cyfatebiaeth ag arferion a strwythurau presennol perthnasol, megis prosesau gofal sylfaenol, ymgynghori â phlant a phobl ifanc a Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus a Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol.

'Mae dod yn ddi-fwg yn ehangach na bod yn gam gweithredu gan y GIG/Bwrdd Iechyd yn unig. Yn ddelfrydol byddai amcanion di-fwg yn cael eu hymgorffori mewn Polisiâu/strategaethau eraill, felly nid yw'n Strategaeth ar wahân neu annibynnol, ond yn hytrach mae'n rhan o gynlluniau sydd eisoes ar waith i gefnogi grwpiau blaenoriaeth.'

- 7.8 Gwnaeth cyfran lai (llai nag un o bob deg) sylwadau cyffredinol yn cytuno bod y strategaeth a'r cynllun cyflawni yn cyd-fynd â pholisïau perthnasol, heb roi rhagor o fanylion.
- 7.9 Ailadroddodd tua chwarter yr ymatebwyr y pwyntiau a godwyd ganddynt yn gynharach yn ymwneud â rhyddid unigolion i ddewis a beirniadaeth gyffredinol o ddull gweithredu Llywodraeth Cymru a/neu'r ymgynghoriad. Dywedodd ychydig dros un o bob deg eu bod yn ansicr neu nad oeddent mewn sefyllfa i ymateb i'r cwestiwn.

8. Effeithiau ar y Gymraeg

8.1 Mae'r bennod hon yn ystyried effeithiau'r strategaeth ar y Gymraeg.

Cwestiwn 10

Hoffem wybod eich barn ar yr effeithiau y byddai Cymru Ddi-fwg: Ein strategaeth hirdymor ar Reoli Tybaco yng Nghymru a Tuag at Gymru Ddi-fwg: Cynllun Cyflawni ar Reoli Tybaco 2022-2024 yn eu cael ar yr iaith Gymraeg, yn benodol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Beth fyddai'r effaith yn eich barn chi? Sut fyddai modd cynyddu'r effeithiau cadarnhaol, neu leihau'r effeithiau negyddol?

8.2 Gofynnodd Cwestiwn 10 i'r cyfranwyr am eu barn ynghylch yr effeithiau y gallai Cymru Ddi-fwg: Ein strategaeth hirdymor ar Reoli Tybaco yng Nghymru a Tuag at Gymru Ddi-fwg: Cynllun Cyflawni ar Reoli Tybaco 2022-2024 eu cael ar yr iaith Gymraeg, yn benodol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Gofynnwyd i'r cyfranwyr nodi unrhyw effeithiau, sut y gellid cynyddu'r effeithiau cadarnhaol, neu leihau'r effeithiau negyddol.

8.3 Daeth cyfanswm o 126 o ymatebion i law ar gyfer y cwestiwn hwn. O blith y rhain, nododd dau o bob pump yn benodol nad oeddent yn rhagweld y byddai'r strategaeth a'r cynllun [gweithredu cyflawni](#) yn cael unrhyw effaith uniongyrchol ar y Gymraeg. Codwyd dau brif fater gan y rhai nad oeddent yn meddwl y byddai'r strategaeth yn cael unrhyw effaith uniongyrchol ar y Gymraeg. Roedd un mater yn ymwneud â'r ffaith na fyddai'n rhesymol disgwyl i strategaeth a chynllun [gweithredu cyflawni](#) o'r fath gyfrannu'n gadarnhaol at y Gymraeg:

'Ni fyddem yn disgwyl gweld effaith uniongyrchol ar y Gymraeg.'

8.4 Mater arall oedd nad oedd yr ymatebion hyn wedi deall sut y gellid disgwyl i strategaeth a chynllun [gweithredu cyflawni](#) o'r fath gael unrhyw effaith (boed hynny'n gadarnhaol neu'n negyddol) ar y Gymraeg:

'Nid oes cysylltiad rhwng smygu a'r iaith Gymraeg.'

'Beth ar y ddaear sydd gan smygu i'w wneud â'r Gymraeg?'

- 8.5 Ni wnaeth tua chwarter yr ymatebwyr ateb y cwestiwn yn uniongyrchol a dewisodd tuag un rhan o ddeg atgyfnerthu pwysigrwydd rhyddid unigolion wrth ateb y cwestiwn.
- 8.6 Nododd niferoedd llai (dyrnaid ym mhob achos) yn benodol y byddai'r strategaeth yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar y Gymraeg. Disgwylwyd i'r strategaeth gael effaith gadarnhaol gan y byddai'n arwain at gymunedau iachach, a siaradwyr Cymraeg iachach tra bod ei heffeithiau negyddol yn cael eu hystyried yn rhai economaidd eu natur e.e. effaith negyddol ar niferoedd yr ymwelwyr ledled Cymru.
- 8.7 Daeth tair thema ehangach i'r amlwg o'r ymatebion a gafwyd i'r cwestiwn hwn. Roedd y rhain yn ymwneud â'r canlynol:

- yr angen i waith ymgysylltu a darpariaeth y strategaeth fod yn gwbl ddwyieithog fel bod siaradwyr Cymraeg yn gallu cael mynediad atynt. Fe wnaeth ychydig dros un rhan o ddeg o'r rhai a ymatebodd i'r cwestiwn hwn drafod y mater hwn ac roedd y sylwadau'n cynnwys y canlynol:

'Bydd angen rhoi ystyriaeth benodol i'r Gymraeg wrth ddatblygu gwasanaethau a chynnal ymgyrchoedd cyfathrebu er mwyn sicrhau eu bod yn hygyrch ac yn ystyrlon i bawb yng Nghymru.

'Mae'n hanfodol bod yr holl gyhoeddiadau a data ar gael yn y ddwy iaith a sicrhau bod cyngor ar roi'r gorau i smygu ar gael yn Gymraeg i'r rhai sydd ei angen.

- y ffaith y byddai angen i weithrediad y strategaeth gydymffurfio â deddfwriaeth a safonau'r Gymraeg, a godwyd gan lond dwrn o ymatebwyr:

'Byddai sefydliadau statudol sydd â rôl mewn cefnogi gweithrediad y Strategaeth a'r Cynllun Cyflawni i gyd yn gorfod cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg a byddent yn hen gyfarwydd â hyrwyddo'r Gymraeg a'r defnydd ohoni drwy eu gwaith'.

- yr angen i ystyried anghenion ieithyddol eraill wrth weithredu'r strategaeth:

'Rydym hefyd yn cydnabod bod nifer o ieithoedd yn cael eu siarad yn ardal ein Bwrdd Iechyd ac rydym yn bwriadu cynnig gwybodaeth a chymorth ym mhob iaith ofynnol er mwyn sicrhau ein bod yn gynhwysol.'

'Dylai gwybodaeth hefyd fod ar gael mewn ieithoedd cyffredin eraill.'

Cwestiwn 11

Hefyd, esboniwch sut y gallai'r strategaeth arfaethedig a'r cynllun cyflawni gael eu llunio neu eu newid er mwyn cael effeithiau cadarnhaol neu fwy o effeithiau cadarnhaol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, ac osgoi unrhyw effeithiau niweidiol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

- 8.8 Roedd Cwestiwn 11 yn canolbwyntio ar sut y gellid llunio neu newid y strategaeth arfaethedig a'r cynllun cyflawni er mwyn cael effeithiau cadarnhaol neu fwy o effeithiau cadarnhaol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, ac osgoi unrhyw effeithiau niweidiol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.
- 8.9 Cynigiodd llai nag un o bob deg o'r rhai a gyfrannodd at yr ymarfer ymgynghori syniadau penodol ar sut y gallai'r strategaeth a'r cynllun cyflawni gynyddu eu heffaith gadarnhaol ar y Gymraeg. Mewn llawer o achosion, roedd y syniadau hyn yn atgyfnerthu'r hyn a fyddai'n ofynnol er mwyn cydymffurfio â deddfwriaeth gyfredol y Gymraeg, gan gynnwys safonau'r Gymraeg, ac i gyflawni amcanion Cymraeg 2050.
- 8.10 Cyfeiriodd llawer o'r ymatebion hyn at yr angen i sicrhau bod adnoddau a gwasanaethau dwyieithog yn parhau i fod ar gael i ddefnyddwyr yn y dyfodol. Nododd darparwyr gwasanaethau rhoi'r gorau i smygu fod cymorth ar gael fel mater o drefn i ddefnyddwyr yn Gymraeg ac yn Saesneg a bod yr holl adnoddau (fel adnoddau cymorth, poster, a gwybodaeth ar wefannau)

a'r cyfathrebu ar y cyfryngau cymdeithasol eisoes yn cael eu cynhyrchu'n ddwyieithog. Nid oedd pawb yn gytûn bod hyn yn digwydd fodd bynnag ac roedd rhai o'r sylwadau a wnaed yn pwysleisio pwysigrwydd cynnig gwasanaeth dwyieithog yn y dyfodol:

'Dylid cynnig cyngor ar roi'r gorau i smygu yn y Gymraeg a'r Saesneg, yn ogystal ag unrhyw daflenni a llenyddiaeth. Gellid cynnal clinigau rhoi'r gorau i smygu yn ddwyieithog'.

8.11 O ystyried y nifer cymharol fach o awgrymiadau penodol a gynigiwyd, mae'r pwyntiau a ganlyn yn sylwadau a gynigiwyd gan ddim mwy na chwepwl o ymatebion:

- cynyddu'r cyfeiriad at y Gymraeg yn y ddogfen ymgynghori:

'Nid yw'r strategaeth yn cyfeirio o gwbl at y Gymraeg, ac mae hynny'n annerbyniol.

- gwella ansawdd yr adnoddau sy'n cael eu cyfieithu, gan sicrhau bod gwallau gramadegol yn cael eu dileu. Amlygwyd nifer o wallau yn y ddogfen ymgynghori ei hun gan un ymateb. Cyfeiriwyd at y cyfieithiad o'r term 'pregnant women' fel 'pobl beichiog' fel un enghraifft o'r fath.
- cynnig llinellau cymorth a gwasanaethau sgwrsio ar-lein dwyieithog
- cynnal mwy o grwpiau cymorth rhoi'r gorau i smygu yn Gymraeg, yn enwedig yng Ngogledd a Gorllewin Cymru
- cynnig cymhellion i bobl ar draws y ddwy ardal e.e. cynnig gwersi Cymraeg am ddim i rieni sy'n llwyddo i roi'r gorau i smygu
- sicrhau profiad cyfartal i gleifion waeth beth fo'u hiaith
- sicrhau bod adnoddau Cymraeg yn hygyrch ac yn hawdd eu deall. Dywedodd un ymatebydd:

'Ar sawl achlysur mae adnoddau Cymraeg yn cael eu cynhyrchu gan ddefnyddio iaith/geiriau nad ydynt yn gyfarwydd i'r person cyffredin sy'n siarad Cymraeg ac mae hyn yn atal hyd yn oed siaradwyr Cymraeg rhugl rhag defnyddio'r adnodd Cymraeg – mae'n llawer

haws defnyddio'r fersiwn Saesneg sydd wedi cael ei datblygu gan roi ystyriaeth i lefel sgiliau darllen y boblogaeth.'

- cynyddu gallu'r sector i ddarparu gwasanaethau yn Gymraeg

'Rhaid i staff nyrsio gael y cyfle i ddysgu Cymraeg fel bod y rhai sy'n fwy cyfforddus yn trafod eu hiechyd yn Gymraeg yn gallu gwneud hynny. Dylid gwneud ymdrech arbennig i sicrhau bod cyngor nyrsio arbenigol ar gael yn ddwyieithog ar gyfer grwpiau blaenoriaeth.'

8.12 Darparodd carfan fwy, tuag un rhan o bump, ymateb i'r cwestiwn hwn ond nid oedd eu hymatebion yn mynd i'r afael â'r cwestiwn a ofynnwyd. Roedd llawer o'r ymatebion hyn yn cwestiynu perthnasedd y cwestiwn ac yn ei ystyried yn gwestiwn amhriodol i'w ofyn. Er enghraifft:

'Mae beth sydd gan y Gymraeg i'w wneud â Chymru ddi-fwg y tu hwnt i mi.'

9. Materion eraill a godwyd

9.1 Mae'r bennod hon yn ystyried yr ymatebion i Gwestiwn 12.

Cwestiwn 12

Rydyn ni wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych chi unrhyw faterion cysylltiedig sydd heb gael eu trafod yn benodol, mae croeso i chi ddefnyddio'r lle hwn i'w nodi.

9.2 Roedd cwestiwn 12 yn gofyn i'r ymatebwyr nodi unrhyw faterion cysylltiedig nad aethpwyd i'r afael â nhw'n benodol yng nghwestiynau'r ymgynghoriad. O blith y 246 o ymatebion a ddaeth i law, ymatebodd 89 i'r cwestiwn hwn.

9.3 Ategodd traean o'r ymatebion a ddaeth i law eu gwrthwynebiad i'r strategaeth oherwydd bod y strategaeth yn bwriadu cyfyngu ar ryddid pobl i ddewis neu oherwydd ei bod yn cael ei hystyried yn wastraff arian cyhoeddus. Ailadroddodd tuag un rhan o ddeg o'r ymatebion a ddaeth i law eu cefnogaeth i'r strategaeth, ac roedd nifer o'r ymatebion hyn eisiau chwarae rhan weithredol wrth gefnogi ei gweithrediad.

9.4 Gellir grwpio'r rhan fwyaf o'r sylwadau sy'n weddill yn bedair thema allweddol. Mae'r materion hyn, a godwyd ym mhob achos gan ddim mwy nag un rhan o ddeg o'r rhai a ymatebodd i'r cwestiwn hwn, yn cael eu hystyried isod yn y drefn y cawsant eu codi amlaf:

Cyfathrebu

9.5 Cynigiodd sawl ymateb syniadau ar gyfer sut y gellid hyrwyddo'r strategaeth a'i chyfleu'n effeithiol. Roedd un ymateb yn galw ar Lywodraeth Cymru i sefydlu corff annibynnol i gynnal un ymgyrch cyfryngau torfol er mwyn hyrwyddo gwasanaethau rhoi'r gorau i smygu, gan mai dyma fyddai'r dull mwyaf effeithiol o gyflawni'r gwaith hwn. Mewn ymateb arall, cafwyd galwad i'r ymgyrch ddangos manteision rhoi'r gorau i smygu boed yn fanteision iechyd, manteision ariannol neu fanteision o ran cael eu derbyn yn gymdeithasol.

9.6 Mewn ymateb arall, cafwyd galwad i'r ymgyrch fabwysiadu dull gweithredu wedi'i dargedu'n well, gan sicrhau bod sianeli cyfathrebu priodol ar wahân yn

cael eu mabwysiadu i gyrraedd grwpiau blaenoriaeth megis plant a phobl ifanc sy'n agored i niwed, a gofalwyr maeth:

'Nid yw dull cyffredinol o ddarparu gwybodaeth iechyd y cyhoedd bob amser yn gweithio. Mae angen i sianeli ar wahân o wybodaeth wedi'i thargedu fod ar gael gan ddefnyddio'r holl gyfryngau cymdeithasol.'

- 9.7 Yn unol â hyn, roedd galwad i sicrhau bod deunyddiau hyrwyddo yn cael eu haddasu i ddiwallu anghenion penodol a lefel dealltwriaeth gwahanol gynulleidfaedd targed, gan gynnwys plant a phobl ifanc. Roedd un ymateb o'r fath yn galw am ddeunyddiau mewn Saesneg clir sy'n osgoi defnyddio jargon tra bod un arall yn galw ar Lywodraeth Cymru i ddarparu mwy o ddata ar sefyllfa plant a phobl ifanc o fewn yr adnoddau ymgynghori:

'Gall fideo helpu i gynnwys plant a phobl ifanc nad ydynt yn gallu darllen ar y lefel hon eto. Yn ogystal â hynny, efallai y byddai ffurflen ymateb ar wahân sy'n gyfeillgar i bobl ifanc yn ddefnyddiol... mae'r cynllun yn dangos data ar leihau mwg ail law i oedolion, a oes ffigur cyfatebol ar gyfer pobl ifanc?'

- 9.8 Yn unol â hyn, dywedodd ymatebydd arall fod y dogfennau ymgynghori eu hunain wedi'u hanelu'n fwy at weithwyr proffesiynol ac y byddent wedi elwa o ddogfen symlach wedi'i hanelu at aelodau'r cyhoedd.

Llywodraethu, cerrig milltir, a chynnydd

- 9.9 Y pwyntiau allweddol a wnaed mewn perthynas â'r thema hon oedd nad oes unrhyw fanylion am yr hyn a fydd yn digwydd pan ddaw cynllun cyflawni 2022-24 i ben. Byddai un neu ddau o'r ymatebwyr yn croesawu mwy o ystyriaeth ar gyfer camau gweithredu yn y dyfodol ar hyn o bryd a gwell dealltwriaeth o'r ffactorau a fydd yn pennu beth fydd yn cael ei gynnwys yn y cynllun cyflawni nesaf ar gyfer 2024-25.
- 9.10 Roedd cwpwl o ymatebwyr yn cwestiynu a yw'r prosesau monitro ac adrodd arfaethedig yn ddigon cadarn i benderfynu a fydd y cynllun cyflawni yn cael effaith. Mynegodd cwpl o ymatebwyr hefyd eu dymuniad i weld y cynllun cyflawni yn pennu cerrig milltir cliriach a fyddai'n caniatáu i Lywodraeth Cymru fesur a yw'r cynnydd a wnaed dros amser yn dderbyniol. Roedd un ymateb o'r fath yn awgrymu y dylid ychwanegu adolygiad interim i asesu'r cynnydd yn y cyfnod canol.

- 9.11 Gofynnodd un ymatebydd i adroddiadau cynnydd a oedd ar gael i'r Bwrdd Strategol ar gyfer Rheoli Tybaco gael eu cyhoeddi ac y dylai'r cynllun cyflawni nodi pa mor aml y dylid paratoi a chyhoeddi'r adroddiadau hyn.
- 9.12 Cwestiynodd un ymatebydd gyfansoddiad y Bwrdd Strategol ar gyfer Rheoli Tybaco gan nodi nad oedd y proffesiwn nyrsio yn cael ei gynrychioli mewn unrhyw ffordd ar y corff. Galwyd ar Lywodraeth Cymru i ystyried y ffordd orau o ymgysylltu â'r proffesiwn nyrsio ar lefel strategol, o ystyried eu habsenoldeb o'r Bwrdd hwn.

Sylwadau ychwanegol ar grwpiau penodol

- 9.13 Gwnaed pwyntiau ychwanegol penodol gan ymatebwyr unigol, mewn perthynas â grwpiau blaenoriaeth penodol. Roedd y pwyntiau hyn fel a ganlyn:
- roedd cyfraddau smygu ymhlith pobl â salwch meddwl difrifol fel sgitsoffrenia ac anhwylder deubegynol yn parhau i fod yn ystyfnig o uchel ac roedd y grŵp hwn yn fwy tebygol o fod angen cymorth i roi'r gorau i smygu. Dadleuwyd bod seiciatryddion mewn sefyllfa dda i gefnogi'r unigolion hyn i roi'r gorau i smygu
 - dylai Llywodraeth Cymru osod targed dilynol o ostyngiad o 5% mewn cyffredinrwydd smygu yng Nghymru ar gyfer pob grŵp economaidd-gymdeithasol, gan gynnwys y cwintel â'r amddifadedd mwyaf

Datganiad o fuddiant personol

- 9.14 Tynnodd un ymateb sylw at y ffaith nad oedd yr ymarfer ymgynghori yn gofyn i'r ymatebwyr ddatgan unrhyw fuddiant personol a bod hyn yn groes i Gonfensiwn Fframwaith Sefydliad Iechyd y Byd ar Reoli Tybaco y mae ei lofnodwyr yn rhwymedig i ddiogelu polisi iechyd y cyhoedd rhag buddiannau personol y rhai yn y diwydiant tybaco⁵. Argymhellodd un ymateb o'r fath y dylid:

⁵ Mae'r ymatebion hyn wedi'u codio a'u cyfeirnoddi fel ymatebion gan y diwydiant tybaco drwy gydol y dadansoddiad hwn.

'cynnal adolygiad i nodi ymatebion lle ceir gwrthdaro o'r fath ac ystyried y rhai a nodir gyda'i gilydd.'

Atodiad 1: Rhestr o'r sefydliadau a ymatebodd i'r ymgynghoriad

Rhwydwaith Ysgolion Iach Cymru
Coleg Brenhinol y Bydwagedd
Fferylliaeth Gymunedol Cymru
Cyngor Dinas Casnewydd
Cyngor Castell-nedd Port Talbot
Y Gymdeithas Fferylliaeth Frenhinol
Cyngor Caerffili
Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan
Comisiynydd Plant Cymru
Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg
Iechyd Cyhoeddus Cymru
Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
Y Coleg Nyrsio Brenhinol
Coleg Brenhinol Pediatreg ac Iechyd Plant
Cymdeithas Feddygol Prydain
British Heart Foundation Cymru
Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
Juul Labs Inc
Coleg Brenhinol y Seiciatryddion yng Nghymru
Spectrum Consortium
Safonau Masnach Cymru
UK Vaping Industry Association
Japan Tobacco International
Cynghrair Rheoli Tybaco Cymru
Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro
ASH CYMRU
Independent British Vape Trade Association
Cancer Research UK
FOREST
Rhwydwaith Maethu Cymru
ASH
Ymddiriedolaeth Iechyd FELINDRE
Bwrdd Iechyd Bae Abertawe
Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg
Cymdeithas Iechyd Pobl Ifanc (AYPH)
Y GIG
Prifysgol De Cymru
New Nicotine Alliance
Gofal Canser Tenovus
Imperial Brands Plc
DECIPHer
Africa Harm Reduction Alliance
Iechyd Cyhoeddus Cymru - Is-adran Gwella Iechyd, Tîm Camddefnyddio Sylweddau
Philip Morris Limited